# TELERAU SAFONOL RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU

## TABL CYNNWYS

**Cymal** **Rhif Tudalen**


1. Diffiniadau a Dehongliadau ... 3
2. Darparu Gwasanaethau ... 12
3. Diwydrwydd Dyladwy a gwarantau ... 13
4. Defnyddio System CITB ... 14
5. Newidiadau i Wasanaethau a Dogfennau Cyrsiau a Systemau ... 16
6. Cydymffurfio ... 17
7. Atal twyll ... 18
8. Ffioedd a Thaliadau ... 18
9. Sicrhau Ansawdd (Monitro ac Archwilio) ... 19
10. Amrywio ... 20
11. Apeliadau a Datrys anghydfod ... 20
12. Is-gontractio a neilltuo ... 20
13. Indemniadau ... 20
14. Cyfyngiad atebolrwydd ... 21
15. Yswiriant ... 22
16. Rhyddid gwybodaeth ... 22
17. Diogelu data ... 23
18. Cyfrinachedd ... 25
19. Eiddo Deallusol ... 26
20. Trwydded nod masnach ... 26
21. Ataliad dros dro ... 27
22. Tymor ... 28
23. Terfynu ... 28
24. Terfynu gyda rhybudd ... 29
25. Force majeure ... 29
26. Atal llygredigaeth a gwrthdaro ... 30
27. Canlyniadau terfynu ... 31
28. Hepgoriad ... 31
29. Toradwyedd ... 32
30. Partneriaeth neu asiantaeth ... 32
31. Hawliau trydydd parti ... 32
32. Cyhoeddusrwydd ... 32
33. Cyfeiriadau at CITB ... 32
34. Hysbysiadau ... 33
35. Sicrwydd Pellach ... 33
36. Gosod yn erbyn ... 33
37. Cyfraith lywodraethol ... 33
38. Awdurdodaeth ... 33
39. Atodiad A ... 34

**TELERAU SAFONOL RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT**
**BWRDD HYFFORDDI'R DIWYDIANT ADEILADU (CITB)**

## 1. DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

1.1 Mae'r diffiniadau a'r rheolau dehongli yn y cymal hwn yn berthnasol yn y Cytundeb hwn.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwyedig** | Darparwr sy'n darparu ei gynhyrchion ei hun sydd wedi cael eu mapio yn erbyn safonau cyfnod byr priodol CITB. |
| **Cyflawniad** | (pan fydd yn cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â Dysgwyr) mae'n golygu cyflawniad y Dysgwr o ofynion Cwrs penodol. |
| **Cytundeb** | mae'n golygu'r contract rhwng CITB a'r Darparwr ar gyfer darparu Gwasanaethau yn unol â'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant a Chynhyrchion CITB a mynediad at System(au) CITB a'r defnydd ohonynt gan gynnwys y Ffurflen Gytundeb ar gyfer ymgysylltu â Darparwr, y Telerau Safonol hyn, Dogfennau Cyrsiau a Systemau perthnasol, a'r holl ddogfennau a deunyddiau y cyfeirir atynt yn y Ffurflen Gytundeb. |
| **Apêl** | y weithdrefn apelio y cyfeirir ati yng nghymal 11 |
| **Ffurflen Gais** | y ffurflen gais a gyflwynir i CITB gan y Darparwr a/neu unrhyw wybodaeth arall a ddarperir gan y Darparwr wrth ofyn am Gymeradwyaeth. |
| **Cymeradwyaeth** | cymeradwyo Darparwr i fod yn aelod o'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant, a bydd "Cymeradwyo" a "Cymeradwywyd" yn cael eu dehongli yn yr un modd. |
| **Safle Awdurdodedig** | y safle a gymeradwyir gan CITB yn ôl ei ddisgresiwn ei hun, a ddisgrifir fel "Lleoliad y Darparwr" yn y Ffurflen Gytundeb ac unrhyw safle, adeilad neu leoliad a ddefnyddir gan y Darparwr ar gyfer gweinyddu, asesu, storio, hyfforddi a/neu brofi mewn cysylltiad â darparu Gwasanaethau a Safonau o dan y Cytundeb hwn. |
| **Cynrychiolydd/Cynrychiolwyr Awdurdodedig** | yr unigolion y mae CITB a'r Darparwr wedi'u dynodi'n gynrychiolydd/gynrychiolwyr awdurdodedig, gyda'r unigolion cyntaf o'r fath sy'n cynrychioli'r Darparwr yn cael eu nodi yn y Ffurflen Gytundeb. |
| **Canllawiau Brandio** | y canllawiau brandio a nodir yn y Ffurflen Gytundeb neu y cyfeirir atynt yn y ddogfen honno. |

| | |
|---|---|
| **Deddf Llwgrwobrwyo** | Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf honno o bryd i'w gilydd ynghyd ag unrhyw ganllawiau neu godau ymarfer a gyhoeddir gan adran berthnasol y llywodraeth mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth. |
| **Polisïau CITB** | y polisïau sy'n cael eu creu neu eu mabwysiadu gan CITB o bryd i'w gilydd, gan gynnwys polisïau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, diogeledd, ymddygiad cyflenwyr, contractwyr neu unigolion, dulliau cynnal busnes neu fel arall y mae CITB yn mynnu bod Darparwyr yn cydymffurfio â nhw ac sy'n cael eu hysbysu'n ysgrifenedig a/neu eu cyhoeddi ar wefan CITB. |
| **System(au) CITB** | y system a sefydlwyd ac a weithredir gan CITB gan gynnwys Gwobrau Ar-lein, porth CITB, System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid CITB, y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu, y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu ac unrhyw system arall sydd wedi'i chaffael at ddibenion darparu'r Gwasanaethau. |
| **Gwefan System CITB** | www.my.citb.co.uk neu wefan neu wefannau eraill o'r fath y gallai CITB roi gwybod i'r Darparwr amdanynt o bryd i'w gilydd. |
| **Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu** | cyfeiriadur o Ddarparwyr a'u gwasanaethau (ymysg pethau eraill). |
| **Cofrestr Hyfforddiant Adeiladu** | cofrestr o Gyflawniadau Dysgwyr. |
| **Dyddiad Cychwyn** | y dyddiad y llofnodir y Ffurflen Gytundeb gan gynrychiolydd CITB. |
| **Rheolydd** | bydd ganddo'r un ystyr â'r diffiniad o'r term yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Camau Unioni** | camau i'w cymryd gan y Darparwr o ganlyniad i dorri amodau yn y Llawlyfr i Ddarparwyr y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant ac unrhyw gyhoeddiad sy'n ymwneud â'r Gofynion Sicrhau Ansawdd ar gyfer cynlluniau penodol, neu'r Cytundeb hwn. Mae'n cynnwys y termau camau unioni i'w cymryd (CAR), camau i'w cymryd ar unwaith (IAR), cynllun gweithredu, arsylwi (OBS) a gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd (IAG). |

| | |
|---|---|
| **Cwrs/cyrsiau** | mae'n golygu<br>(a) Cwrs (gan gynnwys holl gynnwys y cwrs) y mae CITB wedi dewis ei ddilysu (neu beidio) fel un sy'n bodloni gofynion Safon benodol yn seiliedig ar samplu ar sail risg, neu<br>(b) cymhwyster rheoledig neu gwrs nad yw'n cael ei reoleiddio (gan gynnwys holl gynnwys y cwrs) sy'n cael ei gynnig gan sefydliad sy'n cael ei gydnabod gan drydydd parti ac sy'n cael ei gymeradwyo gan CITB at ddibenion System CITB ac sy'n cynnwys rhannau priodol o'r cymhwyster neu'r cwrs byr hwnnw,<br>fel y disgrifir neu y cyfeirir atynt mewn Ffurflen Gytundeb ac y mae'r Darparwr wedi'i gymeradwyo i'w darparu.<br>At ddibenion y diffiniad hwn, gall sefydliad sy'n cael ei gydnabod gan drydydd parti gynnwys "Corff Dyfarnu" sy'n cael ei reoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual), Awdurdod Cymwysterau'r Alban (SQA) neu Cymwysterau Cymru i sicrhau bod ansawdd yr hyfforddiant a gyflwynir yn bodloni Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a sefydliadau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio fel cynlluniau cardiau cymhwysedd, cynlluniau peiriannau a chynlluniau eraill sy'n benodol i ddiwydiant. |
| **Dogfennaeth neu Ddogfennau** | mae'n golygu dogfennau:<br>• sy'n ymwneud â Gwasanaethau a darparu Profion a/neu fynediad a defnydd o System CITB ac fel arall fel y nodir neu y cyfeirir atynt yn y Ffurflen Gytundeb gan gynnwys, fel sy'n berthnasol i bob Cwrs a/neu System CITB, Dogfennau Gofynion a chyhoeddiadau, manylebau a gofynion eraill a gyhoeddir gan CITB ar unrhyw adeg; a/neu<br>• y rheolau a'r gofynion ar gyfer darparu Cynhyrchion CITB ac fel arall fel y nodir neu y cyfeirir atynt yn y Ffurflen Gytundeb gan gynnwys, fel sy'n berthnasol i bob Cynnyrch CITB, Llyfryn y Cynllun, Rheolau'r Cynllun, neu gyhoeddiadau a manylebau eraill a gyhoeddir gan CITB ar unrhyw adeg. |
| **Digwyddiad Colli Data** | mae'n golygu unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain, neu a allai arwain, at fynediad heb ei awdurdodi at Ddata Personol sy'n cael ei gadw gan y Cyflenwr o dan y Cytundeb hwn, a/neu achos posibl neu wirioneddol o golli a/neu ddinistrio Data Personol sy'n torri'r Cytundeb hwn, gan gynnwys unrhyw Dor Diogelwch Data Personol. |

| | |
|---|---|
| **Asesiad Effaith Diogelu Data** | mae’n golygu asesiad y Rheolydd o effaith y gwaith prosesu arfaethedig ar ddiogelu Data Personol. |
| **Swyddfa Diogelu Data** | bydd gan y term yr un ystyr â’r diffiniad a roddir yn y GDPR. |
| **Gwrthrych y Data** | bydd gan y term yr un ystyr â’r diffiniad a roddir yn y GDPR. |
| **Deddfwriaeth Diogelu Data** | mae’n golygu'r holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd perthnasol sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((EU) 2016/679) (y GDPR); Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), Deddf Diogelu Data 2018; Cyfarwyddeb Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2002/58/EC (fel y'i diweddarwyd gan Gyfarwyddeb 2009/136/EC) a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (SI 2003 Rhif 2426) fel y'i diwygiwyd; unrhyw ddeddfwriaeth arall yn y Deyrnas Unedig neu'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â data personol a'r holl ddeddfwriaethau a gofynion rheoleiddio eraill sydd mewn grym o bryd i'w gilydd sy'n berthnasol i barti sy'n ymwneud â defnyddio Data Personol (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad, preifatrwydd cyfathrebu electronig) ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â diogelu data, prosesu data personol a phreifatrwydd o ganlyniad i’r Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd; a’r cyfarwyddyd a chodau ymarfer a gyhoeddir gan yr awdurdod goruchwylio neu ddiogelu data perthnasol ac sy’n berthnasol i barti; |
| **Gweithdrefn Datrys Anghydfod** | y weithdrefn a nodir yng nghymal 11. |
| **Wedi Sicrhau** | Darparwr sy'n cynnig cynnyrch sy'n gymorth i'r diwydiant adeiladu gan gynnwys hyfforddiant gweithgynhyrchu a sgiliau meddal (e.e. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, rheoli, hyfforddiant cefn swyddfa ac ati). Ni fydd y rhain yn cael eu cefnogi gan safon cyfnod byr CITB. |
| **EIR** | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (SI 2004/3391) ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol o'r llywodraeth mewn perthynas â rheoliadau o'r fath. |

| | |
|---|---|
| **Ffioedd** | y ffioedd, y taliadau a'r symiau eraill sy'n daladwy gan y Darparwr i CITB o dan y Ffurflen Gytundeb ac fel y cyhoeddir ar Wefan System CITB o bryd i'w gilydd. |
| **FOIA** | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Ddeddf o bryd i'w gilydd, ynghyd ag unrhyw ganllawiau a/neu godau ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol o'r llywodraeth mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath. |
| **Force Majeure** | unrhyw achos sy'n effeithio ar allu parti i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn sy'n deillio o weithredoedd, digwyddiadau, hepgoriadau neu ddigwyddiadau dibwys y tu hwnt i'w reolaeth resymol, gan gynnwys gweithredoedd Duw, terfysgoedd, rhyfel, gweithredoedd terfysgol, tân, llifogydd, storm neu ddaeargryn ac unrhyw drychineb, ond heb gynnwys unrhyw anghydfod diwydiannol sy'n ymwneud â'r Darparwr, Personél y Darparwr neu unrhyw fethiant arall yng nghadwyn gyflenwi'r Darparwr. |
| **Ffurflen Gytundeb** | y ffurflen gytundeb y cytunwyd arni rhwng y partïon sy'n ymgorffori'r Telerau Safonol hyn. |
| **Digwyddiad Ansolfedd** | lle<br>(a) mae'r Darparwr yn gohirio, neu'n bygwth gohirio, talu ei ddyledion neu'n methu â thalu ei ddyledion fel y maent yn ddyledus neu'n cyfaddef nad yw'n gallu talu ei ddyledion neu (ac yntau'n gwmni neu'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig) bernir nad yw'n gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986 neu (ac yntau'n unigolyn) bernir ei fod naill ai'n methu â thalu ei ddyledion neu nad oes ganddo obaith rhesymol o wneud hynny, yn y naill achos, o fewn ystyr adran 268 o Ddeddf Ansolfedd 1986 NEU (ac yntau'n bartneriaeth) fod ganddo unrhyw bartner y mae'r blaenorol yn berthnasol iddo;<br>(b) mae'r Darparwr yn dechrau negodi gyda'i holl gredydwyr neu unrhyw ddosbarth o'i gredydwyr gyda'r bwriad o ad-drefnu unrhyw rai o'i ddyledion, neu'n gwneud cynnig neu'n ymrwymo i unrhyw gyfaddawd neu drefniant gyda'i gredydwyr heblaw (ac yntau'n gwmni) at yr unig ddiben o gynllun ar gyfer uniad diddyled y Darparwr gydag un neu ragor o |

gwmnïau eraill neu ail-luniad diddyled y Darparwr;

(c) mae deiseb yn cael ei chyflwyno, rhybudd yn cael ei roi, penderfyniad yn cael ei wneud, neu orchymyn yn cael ei wneud, ar gyfer neu mewn cysylltiad â dirwyn i ben y Darparwr (ac yntau'n gwmni) heblaw at yr unig ddiben o gynllun ar gyfer uniad diddyled y Darparwr gydag un neu ragor o gwmnïau eraill neu ail-luniad diddyled y Darparwr;

(d) gwneir cais i'r llys, neu gwneir gorchymyn, i benodi gweinyddwr, neu os gwneir hysbysiad o fwriad i benodi gweinyddwr neu os penodir gweinyddwr, dros y Darparwr (ac yntau'n gwmni);

(e) mae deiliad arwystl ansefydlog cymwys dros asedau'r Darparwr (ac yntau'n gwmni) wedi dod yn gymwys i benodi neu mae wedi penodi derbynnydd gweinyddol;

(f) bydd gan unigolyn hawl i benodi derbynnydd dros asedau'r Darparwr neu pan fydd derbynnydd yn cael ei benodi dros asedau'r Darparwr;

(g) mae'r busnes (ac yntau'n unigolyn) yn destun gorchymyn neu ddeiseb methdalu;

(h) bydd credydwr neu lyffetheiriwr y Darparwr yn rhoi effaith neu'n cymryd meddiant, neu fod proses atafael, gweithredu, secwestru neu broses arall o'r fath yn cael ei chodi neu orfodi neu erlyn yn erbyn y cyfan neu unrhyw ran o asedau'r Darparwr ac ni chaiff effaith neu broses o'r fath ei rhyddhau cyn pen 14 diwrnod;

(i) bydd unrhyw ddigwyddiad, neu achos yn cael ei ddwyn, mewn perthynas â'r Darparwr mewn unrhyw awdurdodaeth y mae'n ddarostyngedig iddi sy'n cael effaith sy'n cyfateb neu'n debyg i unrhyw un o'r digwyddiadau a grybwyllir yn (a) i (h) (yn gynhwysol);

**Eiddo Deallusol** unrhyw a phob hawl eiddo deallusol o unrhyw natur yn unrhyw le yn y byd, boed yn gofrestredig, yn gofrestradwy neu fel arall, gan gynnwys patentau, modelau cyfleustodau, nodau masnach, dyluniadau cofrestredig ac enwau parth, ceisiadau ar gyfer unrhyw un o'r rhain, enwau masnach neu fusnes, ewyllys da, hawlfraint a hawliau o ran natur hawlfraint, hawliau dylunio, hawliau mewn cronfeydd data,

hawliau moesol, gwybodaeth ymarferol arbennig ac unrhyw hawliau eiddo deallusol eraill sy'n bodoli mewn meddalwedd cyfrifiadurol, rhaglenni cyfrifiadurol, gwefannau, dogfennau, gwybodaeth, technegau, dulliau busnes, lluniadau, logos, llawlyfrau cyfarwyddiadau, rhestrau a gweithdrefnau a manylion cwsmeriaid, dulliau marchnata a gweithdrefnau a llenyddiaeth hysbysebu, gan gynnwys "edrychiad a theimlad" unrhyw wefannau.

| | |
|---|---|
| **Y Gyfraith** | mae’n golygu unrhyw gyfraith, statud, is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978, is-ddeddf, rheoliad, gorchymyn, arweiniad gorfodol neu god ymarfer, dyfarniad llys barn perthnasol, neu gyfarwyddebau neu ofynion unrhyw gorff rheoliadol y mae'r Darparwr wedi ymrwymo i gydymffurfio â nhw. |
| **Dysgwr** | mae’n golygu unigolyn sy'n ymgymryd ag asesiad, cwrs, prawf a/neu sy'n cael cymhwyster ar gyfer Cwrs (sydd wedi'i gymeradwyo gan CITB) a ddarperir gan y Darparwr ac sy'n cynnwys y term Ymgeisydd, Prentis, Cynrychiolydd a Gweithredwr lle bynnag y cânt eu defnyddio yn y Cytundeb hwn neu ar y Cwrs a/neu'r Dogfennau. |
| **Trwyddedig** | Darparwr sy'n darparu cynnyrch CITB (e.e. Site Safety Plus neu brofion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd drwy Ganolfan Prawf Ar-lein) |
| **Deunyddiau** | System CITB ac unrhyw ddogfennau (mewn unrhyw fath o gyfryngau) a ddarperir neu a gynigir gan CITB i'r Darparwr gan gynnwys mewn cysylltiad â chymeradwyo Gwasanaethau (gan gynnwys, yn ddigyfyngiad y Safonau) a/neu fynediad, mewnbynnu i System CITB a'i defnyddio neu fel arall mewn cysylltiad â chyflawni Rhwymedigaethau'r Darparwr, ac arfer hawliau a chyflawni rhwymedigaeth CITB o dan y Cytundeb neu'n unol ag ef, gan gynnwys y rhai sydd ar gael ar-lein neu'n electronig. |
| **Cydsyniad Angenrheidiol** | pob cymeradwyaeth, tystysgrif, awdurdodiad, caniatâd, trwydded, hawlen, rheoliad a chydsyniad sy’n angenrheidiol o bryd i’w gilydd ar gyfer cyflawni Rhwymedigaethau’r Darparwr gan gynnwys yn ddigyfyngiad pob caniatâd cynllunio priodol sy’n angenrheidiol i weithredu o bob un o’i gyfleusterau achrededig. |

| | |
|---|---|
| **Data Personol** | mae'n golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bod dynol a gaiff ei adnabod, neu y gellir ei adnabod ('gwrthrych y data'); bod dynol y gellir ei adnabod yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol y bod dynol hwnnw. |
| **Tor Diogelwch Data Personol** | bydd ganddo'r un ystyr â'r diffiniad o'r term yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Safle** | mae'n golygu safle a ddefnyddir gan y Darparwr ar gyfer gweinyddu busnes y Darparwr a/neu ddarparu Gwasanaethau'r Darparwr. |
| **Prosesydd** | bydd ganddo'r un ystyr â'r diffiniad o'r term yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. |
| **Meysydd Cynnyrch** | mae'n golygu yn unol â chategorïau Cymeradwyo'r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant gan gynnwys Cymeradwyedig, Wedi Sicrhau, Trwyddedig a Chydnabyddedig, neu unrhyw feysydd cynnyrch eraill a gymeradwyir gan CITB o bryd i'w gilydd |
| **Mesurau Diogelu** | mae'n golygu mesurau technegol a sefydliadol priodol a allai gynnwys: amgryptio Data Personol a'i roi dan ffugenw, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a chadernid systemau a gwasanaethau, sicrhau bod argaeledd Data Personol a mynediad ato yn gallu cael ei adfer yn brydlon ar ôl digwyddiad, a mynd ati'n rheolaidd i asesu a gwerthuso pa mor effeithiol yw'r mesurau o'r fath sy'n cael eu mabwysiadu ganddo. |
| **Darparwr** | y parti i'r Cytundeb hwn a Gymeradwyir gan CITB. Mae Darparwr yn cynnwys y termau Coleg, Cyflogwr, Ffederasiwn, Gwneuthurwr Cynnyrch, Ffederasiwn Masnach, Grwpiau Hyfforddi, Darparwyr Hyfforddiant, Prifysgol ac unrhyw sefydliad neu berson arall sydd wedi'i gymeradwyo gan CITB. |
| **Meini Prawf y Darparwr** | y gofynion sylfaenol y mae'n rhaid i'r Darparwr eu cyflawni a'u cynnal fel y nodir yn y Safon, y Cwrs a/neu'r Dogfennau perthnasol. |
| **Rhwymedigaethau'r Darparwr** | darparu Gwasanaethau neu Brofion, mynediad at Systemau CITB a defnydd ohonynt, a'r rhwymedigaethau i'w cyflawni gan y Darparwr o dan y telerau safonol hyn |

| | |
|---|---|
| **Personél y Darparwr** | holl gyflogeion, pobl a staff gan gynnwys staff di-dâl, gwirfoddolwyr, gweithwyr eraill, asiantau, ymgynghorwyr ac isgontractwyr y Darparwr ac unrhyw staff peripatetig sy'n ymwneud â darparu Rhwymedigaethau a/neu Wasanaethau'r Darparwr o bryd i'w gilydd. |
| **Cydnabyddedig** | mae'n golygu Darparwr sy'n darparu cynnyrch trydydd parti sydd naill ai'n cael ei ategu gan safonau cyfnod byr CITB neu brentisiaethau, N/SVQs a/neu gymwysterau adeiladu eraill |
| **Dogfennau Gofynion** | y ddogfen neu'r cyhoeddiad a elwir yn Llawlyfr i Ddarparwyr y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant ac unrhyw gyhoeddiad sy'n ymwneud â'r Gofynion Sicrhau Ansawdd ar gyfer cynlluniau penodol sy'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid i Ddarparwyr gydymffurfio â nhw wrth gyflawni'r Cytundeb hwn ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol i ddarparu'r Gwasanaethau, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'r gofynion hynny a wneir gan CITB o bryd i'w gilydd, fel y'u cyhoeddir ar Wefan System CITB. |
| **Cais am Wybodaeth** | cais am wybodaeth neu gais ymddangosiadol o dan y Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth y Llywodraeth, y FOIA neu'r EIR. |
| **Rheolau'r Cynllun** | mae'n golygu'r rheolau a'r gofynion sy'n berthnasol i bob Maes Cynnyrch penodol. |
| **Gwasanaethau** | mae'n golygu:<br>(i) asesiadau sy'n ymwneud ag asesu Dysgwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan CITB; a/neu<br>(ii) hyfforddi Cyrsiau sydd wedi'u cymeradwyo gan CITB; a/neu<br>(iii) profi Dysgwyr sy'n sefyll prawf sydd wedi'i gymeradwyo gan CITB; a/neu<br>(iv) unrhyw Feysydd Cynnyrch eraill y gallai CITB eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd. |
| **Safon** | wrth gyfeirio at Wasanaethau, mae'n golygu safon a ddatblygwyd gan CITB sy'n nodi'r gofynion y mae'n rhaid mapio'r Cwrs yn eu herbyn gan nodi lefel y dysgu neu'r cyflawniad y mae'n rhaid i Ddysgwr ei bodloni. |
| **Is-brosesydd** | mae'n golygu unrhyw drydydd parti sydd wedi'i benodi i brosesu Data Personol ar ran y Cyflenwr sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb hwn. |

| | |
|---|---|
| **Term** | mae ganddo'r ystyr a nodir yng nghymal 22. |
| **Dyddiad Terfynu** | mae'n golygu dyddiad terfynu'r Cytundeb hwn yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn. |
| **Nodau Masnach** | mae'n golygu nodau masnach cofrestredig y DU a restrir yn y Ffurflen Gytundeb ynghyd ag unrhyw nodau geiriau, ceisiadau cysylltiedig a nodau masnach anghofrestredig cysylltiedig. |
| **Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant** | mae'n golygu grŵp o Ddarparwyr sydd wedi bodloni a chytuno ar ofynion aelodaeth o'r rhwydwaith, ac sydd wedi ymuno ag ef. |
| **Telerau ac Amodau Defnyddwyr** | mae'n golygu'r Telerau ac Amodau i Ddefnyddwyr y cyfeirir atynt yn y Ffurflen Gytundeb sy'n nodi'r telerau ac amodau y mae'n rhaid i'r Darparwr a phob unigolyn sy'n defnyddio System CITB ar ran y Darparwr gydymffurfio â nhw, fel y'u cyhoeddir ar Wefan System CITB. |
| **Diwrnod Gwaith** | Dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban fel y bo'n berthnasol. |

1.2 Ni fydd penawdau'r cymalau, atodlenni a pharagraffau'n effeithio ar y modd y dehonglir y Cytundeb hwn.

1.3 Mae **person** yn cynnwys bod dynol, corff corfforedig neu anghorfforedig (p'un a oes iddo natur gyfreithiol ar wahân ai peidio) a chynrychiolwyr personol a chyfreithiol, olynwyr ac aseinion a ganiateir y person hwnnw.

1.4 Mae unrhyw atodlen i'r Cytundeb yn rhan ohono a bydd yn weithredol fel petai wedi'i nodi'n llawn yng nghorff y Cytundeb hwn a bydd unrhyw gyfeiriad at y Cytundeb hwn yn cynnwys yr atodlenni.

1.5 Rhaid i gyfeiriad at **gwmni** gynnwys unrhyw gwmni, corfforaeth neu gorff corfforaethol arall, lle bynnag a sut bynnag y cafodd ei ymgorffori neu ei sefydlu.

1.6 Mae geiriau unigol yn cyfeirio at y lluosog ac fel arall.

1.7 Bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at y rhywiau eraill.

1.8 Mae cyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol yn gyfeiriad ati fel y mae mewn grym am y tro, gan ystyried unrhyw ddiwygiad, estyniad, neu ailddeddfiad ac mae'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd mewn grym am y tro o dan y statud neu'r ddarpariaeth statudol honno.

1.9 Mae cyfeiriad at **ysgrifennu** neu **ysgrifenedig** yn cynnwys e-bost.

1.10 Mae unrhyw rwymedigaeth yn y Cytundeb hwn ar unigolyn i beidio â gwneud rhywbeth yn cynnwys rhwymedigaeth i beidio â chytuno neu ganiatáu i'r peth hwnnw gael ei wneud.

1.11 Mae cyfeiriad at ddogfen yn golygu cyfeiriad at y ddogfen honno fel y mae wedi'i hamrywio neu ei hadnewyddu (ym mhob achos, ac eithrio pan fydd yn torri darpariaethau'r Cytundeb hwn) ar unrhyw adeg.

1.12 Mae'r cyfeiriadau at gymalau ac atodlenni yn cyfeirio at gymalau ac atodlenni yn y Cytundeb hwn; mae cyfeiriadau at baragraffau yn cyfeirio

at baragraffau yn yr atodlen berthnasol.

1.13 Os oes unrhyw wrthdaro neu anghysondeb o fewn y dogfennau yn y Cytundeb, neu rhyngddynt, dyma drefn y dogfennau o ran blaenoriaeth:

1.13.1 Dogfennau Gofynion; yna

1.13.2 Telerau Safonol Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB; yna

1.13.3 Y Ffurflen Gytundeb.

## 2. DARPARU Gwasanaethau

2.1 Yn weithredol o'r Dyddiad Cychwyn, bydd CITB yn gwneud y canlynol:

2.1.1 Cymeradwyo'r Darparwr i ddarparu'r Gwasanaethau i bobl sy'n cael eu cyflogi neu sy'n bwriadu cael eu cyflogi yn y diwydiant adeiladu yn amodol ar ddarpariaethau'r Cytundeb hwn ac yn unol â nhw, ond dim ond cyhyd ag y bydd y Cytundeb hwn yn parhau mewn grym; ac

2.1.2 yn cymeradwyo ac yn rhoi trwydded i'r Darparwr i gael mynediad at systemau CITB a'u defnyddio fel y nodir yn y Ffurflen Gytundeb a'r Dogfennau Gofynion yn amodol ar delerau ac amodau'r Cytundeb, ac am gyfnod y Cytundeb, ond nid ymhellach nac fel arall.

2.2 Mae'r Darparwr yn cytuno i gydymffurfio â Rhwymedigaethau'r Darparwr ac i arfer ei hawliau a chyflawni ei holl rwymedigaethau eraill yn unol â'r Cytundeb.

2.3 Bydd Rhwymedigaethau'r Darparwr yn cael eu darparu gan Ddarparwr Cymeradwy dan yr amgylchiadau canlynol:

2.3.1 mae'r Safle Awdurdodedig a ddefnyddir i weinyddu a/neu ddarparu'r Gwasanaethau wedi cael eu cymeradwyo gan CITB yn ôl ei ddisgresiwn ei hun fel un sy'n addas i'r diben; ac

2.3.2 mae'r Safle Awdurdodedig wedi'i leoli ym Mhrydain Fawr; a

2.3.3 bydd y Gwasanaethau'n cael eu darparu i unigolion sy'n cael eu cyflogi, neu sy'n bwriadu cael eu cyflogi, yn y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr.

2.4 Bydd y Darparwr yn darparu'r Gwasanaethau, neu'n sicrhau eu bod yn cael eu darparu:

2.4.1 gyda gofal, sgil a diwydrwydd dyladwy; ac

2.4.2 yn unol â'r holl Gyfreithiau perthnasol; ac

2.4.3 yn unol â chyfarwyddiadau rhesymol CITB.

2.5 Bydd y Darparwr yn cael mynediad at Systemau CITB ac yn eu defnyddio, yn unol â'r caniatâd, fel sy'n berthnasol:

2.5.1 i gynnwys manylion y Darparwr (gan gynnwys Cyrsiau perthnasol) yn y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu;

2.5.2 i ddiweddaru Cyflawniadau Dysgwyr a/neu bresenoldeb ar ôl cwblhau Gwasanaeth a ddarperir gan y Darparwr (i alluogi CITB i ddiweddaru'r Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu);

2.5.3 i ddiweddaru porth CITB a Systemau eraill CITB;

2.5.4 i ddarparu gwybodaeth arall o'r fath sy'n ofynnol ac yn unol â'r Dogfennau Gofynion;

2.5.5 i ddarparu rhagor o wybodaeth o'r fath y gallai'r CITB fod ei hangen o bryd i'w gilydd.

2.6 Gall CITB derfynu'r Cytundeb ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Darparwr os bydd y Darparwr yn torri cymal 2.4 neu 2.5 fel y pennir gan CITB yn ôl ei ddisgresiwn ei hun.

2.7 Os nad yw'r Darparwr yn cydymffurfio â darpariaethau'r Cytundeb hwn mewn unrhyw ffordd, gall CITB, heb ragfarnu ei hawliau eraill, fynnu bod y Darparwr yn cymryd Camau Unioni, neu'n cydymffurfio â nhw.

## 3. DIWYDRWYDD DYLADWY A GWARANTAU

3.1 Mae'r Darparwr yn cydnabod ac yn cadarnhau'r canlynol:

3.1.1 ei fod wedi cael cyfle i gynnal ymarfer diwydrwydd dyladwy trylwyr mewn perthynas â'r Gwasanaethau a'i fod wedi gofyn yr holl gwestiynau y mae'n ystyried sy'n berthnasol i CITB, ac mae wedi cael yr holl wybodaeth y mae wedi gofyn amdani gan CITB, er mwyn penderfynu a yw'n gallu darparu'r Gwasanaethau yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn;

3.1.2 mae wedi gwneud, a bydd yn gwneud, ymholiadau i fodloni ei hun ynghylch cywirdeb a digonolrwydd unrhyw wybodaeth a roddir iddo gan CITB neu ar ei ran; ac

3.1.3 mae wedi ymrwymo i'r Cytundeb hwn gan ddibynnu ar ei ddiwydrwydd dyladwy ei hun.

3.2 Ac eithrio fel y darperir yn y Cytundeb hwn, nid yw CITB yn rhoi nac yn rhagdybio unrhyw sylwadau, gwarantau nac amodau mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth a roddir i'r Darparwr ganddo.

3.3 Mae'r Darparwr:

3.3.1 yn gwarantu ac yn datgan, o'r Dyddiad Cychwyn, bod yr holl wybodaeth yn Ffurflen Gais y Darparwr, neu y cyfeirir ati yn y ffurflen honno, yn dal yn wir, yn gywir ac nid yw'n gamarweiniol, ar wahân i'r hyn y gallai fod wedi'i ddatgelu'n benodol yn ysgrifenedig i CITB cyn gweithredu'r Cytundeb; a

3.3.2 bydd yn rhoi gwybod yn ysgrifenedig i CITB ar unwaith am unrhyw newidiadau mewn unrhyw wybodaeth y mae'n ei roi i CITB.

3.4 Mae'r Darparwr yn gwarantu ac yn dangos ei fod bob amser yn bodloni, ac y bydd yn bodloni, Meini Prawf y Darparwr a bod gan Bersonél y Darparwr y sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i ymgymryd â rhwymedigaethau'r Darparwr a'u cyflawni.

3.5 Mae'r Darparwr yn gwarantu ac yn addo y bydd yn rhoi gwybod i CITB am (i) unrhyw newid yn yr wybodaeth a roddir i CITB fel rhan o gais y Darparwr a/neu (ii) unrhyw newidiadau perthnasol dilynol i unrhyw ddogfennau gofynion sicrhau ansawdd perthnasol a/neu Reolau'r Cynllun.

## 4. DEFNYDDIO SYSTEM CITB

4.1 Bydd y Darparwr yn gwneud y canlynol:

4.1.1 darparu a/neu lwytho i fyny'r holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol gan CITB i'w chynnwys yn System CITB fel y nodir mewn unrhyw Ddogfennau Gofynion perthnasol.

4.1.2 sicrhau bod yr holl wybodaeth y mae'r Darparwr yn ei rhoi yn gywir, yn gyfredol, yn gyflawn ac ar ffurf sy'n rhesymol dderbyniol i CITB. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, un o amodau'r Cytundeb hwn yw na fydd y Darparwr yn rhoi unrhyw wybodaeth anghywir, gamarweiniol na ffug i CITB a/neu'n llwytho unrhyw wybodaeth anghywir, gamarweiniol neu ffug i fyny i System CITB.

4.1.3 cadw'n gyfrinachol ac yn bersonol i'r Darparwr ac ni fydd yn rhannu unrhyw gyfrineiriau, codau mynediad na deunydd tebyg a ddarperir gan CITB i'r Darparwr gydag unrhyw drydydd parti er mwyn i'r Darparwr allu llwytho gwybodaeth i fyny i System CITB, gan gynnwys mynediad at systemau aelodau yn unig y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant. Mae'r Darparwr hefyd yn cytuno y bydd yn llwyr gyfrifol ac yn indemnio CITB yn erbyn unrhyw ganlyniadau gan gynnwys cyfaddawdu, colli, datgelu, addasu neu ddefnydd heb awdurdod o System CITB sy'n deillio o'r ffaith bod y Darparwr wedi torri'r cymal hwn.

4.1.4 os nad yw'r Darparwr, am resymau sydd y tu hwnt i'w reolaeth resymol, yn gallu llwytho gwybodaeth i fyny i System CITB, rhaid iddo roi gwybod i CITB am hynny'n ysgrifenedig a rhoi manylion 1) pam nad yw'n gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, 2) camau y mae'r Darparwr yn eu cymryd i ddatrys yr oedi a 3) hyd disgwyliedig yr oedi (os yw'n hysbys). Bydd CITB yn ymdrechu'n rhesymol i helpu'r Darparwr i gael mynediad i System CITB.

4.1.5 peidio â defnyddio gwybodaeth o System CITB er budd masnachol.

4.1.6 cydymffurfio, a bydd yn sicrhau bod pob unigolyn sydd wedi'i awdurdodi i gael mynediad at System CITB (neu unrhyw ran ohoni) ar ran y Darparwr yn cydymffurfio, bob amser, â'r Telerau ac Amodau i Ddefnyddwyr.

4.1.7 sicrhau, drwy gydol y Cytundeb hwn, bod y Darparwr yn defnyddio'r warchodaeth gwrthfeirysau ddiweddaraf sydd ar gael gan werthwr meddalwedd gwrthfeirysau sy'n cael ei dderbyn gan y diwydiant i chwilio am feddalwedd faleisus yn systemau cyfrifiadurol, cronfeydd data ac amgylchedd y Darparwr, a'i dileu (“**TGCh y Darparwr**”).

4.1.8 sicrhau, os bydd meddalwedd faleisus yn cael ei throsglwyddo o TGCh y Darparwr, ac yn arwain at golli effeithlonrwydd gweithredol neu golli neu lygru data sy'n cael ei gadw ar System CITB, y bydd y partïon yn helpu ei gilydd i liniaru unrhyw golledion ac adfer System CITB i'r effeithlonrwydd gweithredu a ddymunir. Bydd yr holl gostau rhesymol wrth wneud hynny'n cael eu talu gan y Darparwr.

4.1.9 bod yn gyfrifol am sicrhau bod TGCh y Darparwr yn bodloni'r holl

fanylebau technegol perthnasol sy'n angenrheidiol i ddefnyddio System CITB, ei fod yn gydnaws â System CITB a'i fod yn gallu rhedeg cynnwys System CITB. Rhaid i'r Darparwr beidio â cheisio ymyrryd mewn unrhyw ffordd â gweithrediad priodol System CITB ac yn benodol rhaid i'r Darparwr beidio â cheisio ymyrryd â mesurau diogelwch, ymyrryd ag unrhyw system gyfrifiadurol, gweinydd, gwefan, llwybrydd neu unrhyw ddyfais arall sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngrwyd, na hacio i mewn i'r rhain na tharfu mewn unrhyw ffordd arall â nhw.

4.1.10 peidio â storio, dosbarthu na throsglwyddo unrhyw ddeunydd drwy System CITB sy'n anghyfreithlon, yn niweidiol, yn fygythiol, yn ddifenwol, yn anweddus, yn tarfu, yn aflonyddu neu'n hiliol neu'n dramgwyddus o ran ethnigrwydd; yn hwyluso gweithgarwch anghyfreithlon; yn dangos delweddau rhywiol amlwg; neu'n hyrwyddo trais anghyfreithlon, gwahaniaethu ar sail hil, rhyw, lliw, cred grefyddol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, neu unrhyw weithgareddau anghyfreithlon eraill;

4.1.11 cyfyngu ar fynediad i System CITB i'r cyflogeion y mae'n ofynnol iddynt, ac i'r graddau sy'n ofynnol, ddefnyddio System CITB wrth ymgymryd â'u swyddi;

4.1.12 peidio â defnyddio System CITB at unrhyw ddiben sy'n groes i unrhyw gyfraith neu reoliad neu unrhyw god, canllaw neu gais rheoleiddio;

4.1.13 peidio â thynnu, ailddefnyddio, defnyddio, manteisio, ailddosbarthu, lledaenu, copïo na storio data na gwybodaeth sy'n cael ei chadw ar System CITB at unrhyw ddiben nad yw'r Cytundeb yn ei ganiatáu'n benodol;

4.1.14 ac eithrio i'r graddau a ganiateir gan unrhyw gyfraith berthnasol, i beidio â chopïo, addasu, dadgrynhoi, ôl-beiriannu na chreu gwaith deilliadol o'r Feddalwedd; ac

4.1.15 ni fydd yn rhannu, yn is-gontractio, yn is-drwyddedu, yn neilltuo, yn trosglwyddo nac mewn unrhyw ffordd arall yn delio â'i hawl i gael mynediad at System CITB a'i defnyddio ac eithrio fel y nodir yn benodol yn y Cytundeb.

4.2 Bydd CITB yn:

4.2.1 caniatáu i'r Darparwr gael mynediad at Systemau CITB er mwyn llwytho'r wybodaeth i fyny a chael gafael arni fel y bo'n berthnasol.

4.2.2 defnyddio ymdrechion rhesymol i sicrhau bod gan y Darparwr fynediad di-dor at Systemau CITB. Fodd bynnag, nid yw CITB yn rhoi unrhyw warant mewn perthynas â hynny ac ni fydd yn derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag amhariadau ar wasanaeth nac amser segur.

4.2.3 ceisio sicrhau'r ansawdd gorau posibl o ran yr wybodaeth sy'n cael ei chadw ar Systemau CITB ond ni fydd CITB yn atebol am unrhyw wallau, hepgoriadau, gwybodaeth anghywir neu lygredig, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth dros rwydweithiau electronig, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

4.2.4 cyfrifol am gynnal a chadw Systemau CITB.

## 5. NEWIDIADAU I Wasanaethau A DOGFENNAU'R SYSTEM

5.1 Gall CITB wneud y canlynol ar unrhyw adeg:

5.1.1 diweddaru, diwygio, newid neu ategu'r Safonau sy'n berthnasol i unrhyw Wasanaeth ("Newid"); neu

5.1.2 dynnu cymeradwyaeth yn ôl ar gyfer Gwasanaeth pan fo'r safon sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth hwnnw wedi'i diwygio neu wedi'i thynnu'n ôl;

a bydd y darpariaethau canlynol yn berthnasol:

5.1.3 Bydd CITB yn cyhoeddi'r newidiadau i'r Safon a/neu'r Cwrs a Dogfennau System CITB a gyhoeddir ar ei wefan a, lle bo hynny'n ymarferol, yn gwneud pob ymdrech i roi gwybod i'r Darparwr am y newid.

5.1.4 Pan fydd y newid yn un gorfodol, sef lle mae'r prif reswm dros y newid i gydymffurfio a/neu sicrhau cydymffurfiad â'r Gyfraith yn y dyfodol ("Newid Gorfodol"), bydd CITB yn gwneud pob ymdrech i roi cymaint o rybudd ag sy'n ymarferol (ond dim llai na 30 diwrnod) yn unol â natur y newid a gofyniad y Gyfraith sy'n mynnu'r newid.

5.1.5 Os bydd newid yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y Darparwr neu ar ei ddarpariaeth o Rwymedigaethau'r Darparwr, gan gynnwys newid i Wasanaeth neu dynnu Gwasanaeth yn ôl, gan gynnwys Safon, yna, oni bai ei fod yn Newid Gorfodol, bydd CITB yn rhoi 30 diwrnod o rybudd i'r Darparwr am y newid ("Hysbysiad Newid").

5.1.6 Os nad yw Darparwr yn derbyn y newid y rhoddwyd gwybod amdano mewn Hysbysiad Newid, gall y Darparwr, cyn i'r Hysbysiad hwnnw ddod i ben, roi hysbysiad ysgrifenedig i CITB o'r ffaith honno a bydd y Cytundeb hwn yn terfynu'n awtomatig a heb ofyniad am rybudd pellach 90 diwrnod ar ôl dyddiad cyflwyno'r hysbysiad hwnnw gan y Darparwr. Ni fydd y Newid yn berthnasol yn ystod y cyfnod hysbysu am derfynu.

5.1.7 Oni bai fod y Darparwr yn cyflwyno hysbysiad yn unol â chymal 5.1.6, neu os nad yw'r Newid yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y Darparwr, ystyrir y bydd y Newid, i bob diben, yn dod i rym pan ddaw'r Hysbysiad Newid i ben neu, os nad oes angen cyhoeddi Hysbysiad Newid, 30 diwrnod ar ôl i'r newidiadau i Wefan System CITB gael eu gwneud.

5.1.8 Cynghorir y Darparwr yn rheolaidd (ac yn bendant o leiaf unwaith y mis) i edrych ar Wefan System CITB am newidiadau i'r Gwasanaethau gan gynnwys y Safonau, a/neu Ddogfennau System CITB.

5.1.9 Bydd y Darparwr yn rhoi'r Newid ar waith ar ei gost ei hun.

5.2 Ni fydd gan CITB unrhyw atebolrwydd arall i'r Darparwr mewn perthynas â Newid,

5.3 Ni chaniateir i'r Darparwr addasu'r Gwasanaethau heb gytundeb

ysgrifenedig CITB ymlaen llaw.

6. **CYDYMFFURFIO**

6.1 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod pob Cydsyniad Angenrheidiol yn ei le i ddarparu Gwasanaethau a bydd bob amser yn cydymffurfio â'r holl amodau a darpariaethau eraill mewn perthynas â phob Cydsyniad Angenrheidiol ac yn sicrhau bod pob Cydsyniad Angenrheidiol yn aros yn gyfredol ac yn ddilys drwy gydol Cyfnod y Cytundeb hwn.

6.2 Bydd y Darparwr yn cyflawni ei rwymedigaethau dan y Cytundeb hwn (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â Rhwymedigaethau'r Darparwr) yn unol â'r canlynol:

6.2.1 yr holl Gyfreithiau perthnasol gan gynnwys pob cyfraith sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch;

6.2.2 Polisïau CITB a Chydsyniad Angenrheidiol; a'r

6.2.3 holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau perthnasol sy'n ymwneud â gwrthgaethwasiaeth a masnachu pobl sydd mewn grym o bryd i'w gilydd, gan gynnwys Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ond heb fod yn gyfyngedig iddi.

6.3 Heb gyfyngu ar y rhwymedigaeth gyffredinol a nodir yng nghymal 2, bydd y Darparwr yn (ac yn sicrhau bod Personél y Darparwr yn) gwneud y canlynol:

6.3.1 cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn yn unol â'r canlynol:

(a) yr holl gyfreithiau cydraddoldeb perthnasol (boed hynny mewn perthynas â hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd, mamolaeth neu fel arall); a

(b) pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth CITB fel y darperir neu sydd ar gael i'r Darparwr o bryd i'w gilydd;

6.3.2 cymryd pob cam angenrheidiol, a rhoi gwybod i CITB am y camau a gymerwyd, i atal gwahaniaethu anghyfreithlon o'r fath gan unrhyw lys neu dribiwnlys, neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (neu unrhyw Ddarparwr olynol); a

6.3.3 chydymffurfio bob amser â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth gyflawni'r Contract hwn. Rhaid i'r Darparwr hefyd ymgymryd, neu beidio ag ymgymryd, â'r cyfryw gamau ar gais CITB er mwyn galluogi CITB i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

7. **ATAL TWYLL**

7.1 Ni chaiff y Darparwr, a bydd yn sicrhau nad yw Personél y Darparwr a/neu Ddysgwyr y Darparwr yn gwneud y canlynol yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn:

7.1.1 twyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo CITB;

7.1.2 ymddwyn mewn ffordd anonest wrth ddarparu'r Gwasanaethau;

7.1.3 gweithredu'n anonest wrth roi manylion ar System CITB gan gynnwys (yn ddigyfyngiad) manylion Dysgwyr a'u cyflawniadau

a/neu hawlio grant am gyflawniadau o'r fath; neu

7.1.4 gymryd unrhyw gamau sydd, ym marn resymol CITB neu sy'n rhoi rheswm i CITB gredu, yn dwyn neu sy'n debygol o ddwyn anfri ar enw neu enw da CITB.

7.2 Yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn bydd y Darparwr yn sefydlu, yn cynnal ac yn gorfodi polisïau a gweithdrefnau sy'n ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth â chymal 7.1.

7.3 Rhaid i'r Darparwr roi gwybod ar unwaith i CITB mewn ysgrifen os yw'n dod yn ymwybodol o unrhyw achos o dorri cymal 7.1 a/neu 7.2.

7.4 Os oes diffyg o ran y Darparwr o dan gymalau 7.1 a/neu 7.2, gall CITB wneud y canlynol drwy roi rhybudd:

7.4.1 mynnu bod y Darparwr, wrth gyflawni'r Cytundeb hwn, yn tynnu unrhyw Bersonél y mae eu gweithredoedd neu eu hanweithredoedd wedi achosi'r diffyg;

7.4.2 atal y Cytundeb hwn ar unwaith yn unol â chymal 21; neu

7.4.3 derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith.

**8. <u>FFIOEDD A THALIADAU</u>**

8.1 Bydd y Darparwr yn talu'r Ffioedd a nodir yn y Ffurflen Gytundeb neu y cyfeirir atynt yn y ddogfen honno. Oni nodir yn wahanol, ni fydd unrhyw Ffioedd yn cynnwys Treth ar Werth nac unrhyw dreth werthu arall sy'n berthnasol mewn unrhyw awdurdodaeth, ac fe fydd y rhain yn daladwy ar ben hynny.

8.2 Mae CITB yn cadw'r hawl i amrywio'r Ffioedd ar unrhyw adeg drwy roi rhybudd i'r Darparwr mewn ysgrifen. Bydd CITB yn rhoi hysbysiad sy'n diwygio'r atodlen Ffioedd neu ddarpariaethau eraill yn y Dogfennau Gofynion neu a gyhoeddir ar wefan CITB yn rhoi manylion y Ffioedd a gall roi gwybod i'r Darparwr am newid o'r fath drwy roi hysbysiad ar ei wefan, yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, neu drwy unrhyw ddull arall sy'n briodol yn ei farn ef.

8.3 Bydd cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw gyfnod yn ystod oes y Cytundeb hwn yn amodol ar Ffioedd sy'n ddyledus a thaliad prydlon ohonynt.

8.4 Oni nodir yn wahanol, ni ddarperir ad-daliadau i'r Darparwr mewn perthynas ag unrhyw Ffioedd a dalwyd neu sy'n daladwy o bryd i'w gilydd.

8.5 Bydd yr holl daliadau y mae'n ofynnol i'r Darparwr eu gwneud yn unol â'r Cytundeb yn cael eu gwneud mewn GBP a byddant yn ddarostyngedig i, ac yn cael eu gwneud yn unol â'r, adran anfonebu a thaliadau hon yn y Telerau Safonol a/neu'r Ffurflen Gytundeb fel y'i diweddarir o bryd i'w gilydd.

8.6 Bydd CITB yn anfonebu'r Darparwr am Ffioedd a godir ac sy'n dod yn ddyledus o bryd i'w gilydd, a bydd y Darparwr yn talu unrhyw symiau sy'n ddyledus i CITB o dan anfoneb o'r fath heb fod yn hwyrach na 30 diwrnod o ddyddiad yr anfoneb. Os bydd y Darparwr yn peidio â thalu, a heb ragfarn i unrhyw rwymedi arall y gall fod gan CITB, bydd y Darparwr yn talu llog ar unrhyw arian sy'n hwyr yn cael ei dalu ar y gyfradd a ragnodir gan Reoliadau Hwyrdalu Dyledion Masnachol 2013 (SI 2013/395) fel y'u diwygir neu y'u disodlir o bryd i'w gilydd.

**9. SICRHAU ANSAWDD (MONITRO AC ARCHWILIO)**

9.1 Bydd CITB yn monitro ac yn archwilio'r Darparwr i sicrhau ansawdd y Gwasanaethau sy'n cael eu darparu, cywirdeb cofnodion, cywirdeb ac amseroldeb cofnodi data Cyflawniadau Dysgwyr ar y Systemau CITB priodol, cydymffurfiad â Dogfennau Gofynion a chyflawniad y Cytundeb hwn gan y Darparwr a gall, yn ôl ei ddisgresiwn llwyr, gynnal ymweliadau dirybudd, arolygiadau, archwiliadau desg a siopa dirgel, yn ogystal â'i hawliau archwilio cyffredinol i gynnal ansawdd darparu Gwasanaethau a mewnbynnu data a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn unol â'r Cytundeb. ("Adolygiad Sicrhau Ansawdd").

9.2 Bydd y Darparwr yn cydweithredu, ac yn sicrhau bod Personél y Darparwr yn cydweithredu, â CITB wrth gynnal yr Adolygiad Sicrhau Ansawdd y cyfeirir ato yng nghymal 9.1 heb gost ychwanegol i CITB.

9.3 Bydd y Darparwr yn gwneud yn siŵr bod cynrychiolwyr CITB yn cael mynediad dirwystr i bob rhan o'r Safle Awdurdodedig, ac at Bersonél y Darparwr, a bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau'r Darparwr ar gael i'w harchwilio a'u copïo, a bod yr holl wybodaeth sy'n rhesymol ofynnol gan CITB yn cael ei darparu'n brydlon ar gais.

9.4 O bryd i'w gilydd bydd y Darparwr yn cyflwyno unrhyw ddogfennau y mae CITB yn gofyn amdanynt o fewn amserlenni rhesymol i hwyluso archwiliadau desg.

9.5 Bydd CITB yn gweithredu ar ganlyniad(au) ei Adolygiad Sicrhau Ansawdd o dan gymal 9 a bydd yn cymryd unrhyw gamau y mae'n credu sy'n rhesymol angenrheidiol, gan gynnwys mynnu bod y Darparwr yn cymryd Cam(au) Unioni, diddymu Cymeradwyaeth y Darparwr neu'n gwrthod adnewyddu'r Cytundeb, ar yr amod bod CITB bob amser yn gweithredu yn unol ag unrhyw brosesau a nodir yn y Cytundeb.

9.6 Mae CITB yn cadw'r hawl i ddirymu neu atal Cymeradwyaeth y Darparwr neu wrthod adnewyddu cymeradwyaeth neu gofrestriad:

9.6.1 hyd nes y ceir canlyniad ymchwiliad i unrhyw achos o dorri amodau'r Cytundeb gan gynnwys Dogfennau'r Cwrs a'r System; a/neu

9.6.2 os nad yw'r Darparwr yn cydymffurfio'n llawn â gofynion cymal 9.

**10. AMRYWIO**

Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn yn dod i rym oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan y partïon (neu eu Cynrychiolwyr Awdurdodedig). Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r cymal hwn yn berthnasol i newidiadau i'r Gwasanaethau a Dogfennau'r Gwasanaeth a'r System, na'r Ffioedd, a fydd yn cael eu hymgorffori'n awtomatig yn y Cytundeb hwn yn unol â chymal 5 neu gymal 8 (yn ôl y digwydd).

**11. APELIADAU A DATRYS ANGHYDFOD**

11.1 I'r graddau y mae Dogfennau'r Gwasanaethau a'r System hefyd yn cynnwys gweithdrefn Apelio, yna, mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad a wneir gan CITB mewn perthynas â'r weithdrefn Apelio honno, os yw'r Darparwr yn anghytuno â phenderfyniad o'r fath, dim ond

yn y modd a nodir yn y weithdrefn Apelio y gall apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw, ond nid fel arall.

11.2 Os bydd anghydfod nad yw cymal 11.1 uchod yn berthnasol iddo yn deillio o'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef neu o'i weithrediad, ei ddilysrwydd neu ei orfodadwyedd (**Anghydfod**) yna bydd y partïon yn dilyn y weithdrefn a nodir yn y cymal hwn:

11.2.1 rhaid i'r naill barti roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall o'r Anghydfod o fewn 30 diwrnod i'r digwyddiad neu'r weithred a arweiniodd at yr Anghydfod, gan nodi ei natur a'i fanylion llawn (**Hysbysiad Anghydfod**), ynghyd â dogfennau ategol perthnasol. Ar ôl cyflwyno'r Hysbysiad Anghydfod, bydd y Cynrychiolwyr Awdurdodedig yn ceisio datrys yr Anghydfod yn gyflym ac yn ddidwyll;

11.2.2 os nad yw'r Cynrychiolwyr Awdurdodedig, am unrhyw reswm, yn gallu datrys yr Anghydfod o fewn 30 diwrnod i gyflwyno'r Hysbysiad Anghydfod, bydd yr Anghydfod yn cael ei gyfeirio at aelod o bwyllgor gweithredol CITB neu gynrychiolydd enwebedig (a fydd yn meddu ar awdurdod i ddatrys yr anghydfod) a Rheolwr Gyfarwyddwr y Darparwr neu ei gynrychiolydd enwebedig (a fydd yn meddu ar awdurdod i ddatrys yr anghydfod) a fydd yn ceisio datrys yr anghydfod yn ddidwyll.

11.3 Os bydd anghydfod, mae'n rhaid i'r Darparwr ddilyn y drefn apelio lawn cyn cymryd unrhyw gamau cyfreithiol.

**12. <u>IS-GONTRACTIO A NEILLTUO</u>**

12.1 Mae'r cytundeb hwn yn bersonol i'r Darparwr, ac ni chaiff y Darparwr neilltuo, trosglwyddo, is-gontractio na gwaredu unrhyw un o'i hawliau neu ymrwymiadau o dan y Cytundeb hwn, neu'r cyfan ohonynt, na cheisio gwneud hynny, heb ganiatâd ysgrifenedig gan CITB ymlaen llaw.

12.2 Bydd gan CITB hawl i adnewyddu'r Cytundeb neu neilltuo ei hawliau a throsglwyddo ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb neu fel arall mewn unrhyw drefniant â'r Cytundeb mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig y Darparwr ymlaen llaw.

**13. <u>INDEMNIADAU</u>**

13.1 Bydd y Darparwr yn indemnio ac yn parhau i indemnio CITB yn erbyn pob gweithred, achos, cost, hawliad, gorchymyn, atebolrwydd, colled a thraul (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i unrhyw golledion uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol, colli elw, colli enw da) a phob cosb, cost gyfreithiol a chostau a threuliau proffesiynol rhesymol eraill a ddioddefir neu a ysgwyddir gan CITB o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw hawliad a wneir yn erbyn CITB gan drydydd parti sy'n deillio o, neu mewn cysylltiad â, chyflawni a/neu gyflenwi unrhyw Wasanaeth, mynediad at, mewnbynnu data i a/neu ddefnydd o System CITB neu gyflawniad neu ddiffyg cyflawniad unrhyw un o rwymedigaethau'r Darparwr o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb, ac eithrio i'r graddau mae'r hawl yn deillio o dorri amod, perfformiad esgeulus neu fethiant neu oedi o ran cyflawni'r Cytundeb gan CITB.

13.2 Bydd y Darparwr yn indemnio CITB mewn perthynas â'r holl gostau,

colledion a threuliau a ysgwyddir gan CITB wrth ddarparu (neu gaffael darpariaeth o) hyfforddiant, asesiadau a phrofion ychwanegol i Ddysgwyr ac ailgyhoeddi cadarnhad o hyfforddiant, asesiadau a phrofion o'r fath, lle bo hyn yn ofynnol oherwydd methiant y Darparwr i gydymffurfio â'r Dogfennau Gofynion neu oherwydd bod y Darparwr wedi torri unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn.

13.3 Bydd y Darparwr yn indemnio CITB mewn perthynas â'r holl gostau, colledion a threuliau a ysgwyddir gan CITB wrth ymchwilio i unrhyw gamymddygiad, camweinyddu neu dwyll sy'n arwain at derfynu'r Darparwr yn unol â'r Cytundeb hwn.

13.4 O fewn cyfyngiadau darpariaethau cymal 13.1 uchod, mae colledion CITB yn cynnwys talu (boed i'r Darparwr neu i drydydd parti) grant na fyddai fel arall wedi bod yn daladwy mewn perthynas â Gwasanaeth lle mae taliad o'r fath wedi digwydd o ganlyniad i'r Darparwr yn torri'r Cytundeb hwn (gan gynnwys methiant i gydymffurfio â Dogfennau Gwasanaethau a System CITB).

## 14. CYFYNGU AR ATEBOLRWYDD

14.1 Yn amodol ar gymal 14.2:

14.1.1 Ni fydd CITB yn atebol i'r Darparwr, boed hynny mewn contract, camwedd (gan gynnwys esgeulustod), am dorri dyletswydd statudol, neu fel arall, sy'n codi o dan y Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef, am golli elw, colli gwerthiant neu fusnes, colli cytundebau neu gontractau, colli arbedion disgwyliedig, colli neu ddifrodi ewyllys da, colli defnydd neu lygru meddalwedd, data neu wybodaeth, unrhyw golled anuniongyrchol neu ganlyniadol; ac

14.1.2 Ni fydd uchafswm atebolrwydd cyfunol CITB i'r Darparwr am bob hawliad sy'n codi o dan y Cytundeb mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn fwy na swm y Ffioedd a dalwyd gan y Darparwr yn ystod y 12 mis cyn y digwyddiad sydd wedi arwain at yr hawliad.

14.2 Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn nid yw'r naill barti neu'r llall yn cyfyngu nac yn eithrio ei atebolrwydd dros y canlynol:

14.2.1 marwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o'i esgeulustod; neu

14.2.2 dorri unrhyw rwymedigaeth o ran teitl sy'n cael ei hawgrymu gan statud; neu

14.2.3 unrhyw weithred neu anweithred arall, na ellir cyfyngu ar atebolrwydd ar ei gyfer o dan unrhyw gyfraith berthnasol.

14.3 Mae'r partïon yn cydnabod ac yn cytuno bod y cyfyngiadau yn y cymal hwn yn rhesymol yng ngoleuni'r holl amgylchiadau.

## 15. YSWIRIANT

15.1 Bydd y Darparwr, ar ei gost ei hun, yn sicrhau ac yn cynnal y polisïau yswiriant gyda chwmni yswiriant dibynadwy gan ddarparu, fan leiaf, y lefelau gwarchodaeth a nodir yn y Ffurflen/ni Cytundeb (yr "Yswiriant Gofynnol").

15.2 Bydd y Darparwr yn rhoi copïau o'r holl bolisïau yswiriant y cyfeirir atynt

yn y cymal hwn neu ddilysiad yswiriant brocer i CITB, ar gais, i ddangos bod yr Yswiriant Gofynnol ar waith, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall o dalu'r premiymau diweddaraf sy'n ddyledus o dan y polisïau hynny.

15.3 Os bydd y Darparwr yn methu â rhoi'r Yswiriant Gofynnol ar waith a'i gynnal, gall CITB wneud trefniadau rhesymol eraill i ddiogelu ei fuddiannau a bydd ganddo hawl i adennill costau trefniadau o'r fath gan y Darparwr.

15.4 Ni fydd telerau unrhyw yswiriant na swm y warchodaeth yn rhyddhau'r Darparwr o unrhyw atebolrwydd o dan y Cytundeb.

15.5 Bydd y Darparwr yn dal ac yn cynnal yr Yswiriant Gofynnol am o leiaf chwe blynedd ar ôl i'r Cytundeb ddod i ben neu os caiff ei derfynu yn gynharach.

**16. RHYDDID GWYBODAETH**

16.1 Mae'r Darparwr yn cydnabod bod CITB yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR). Bydd y Darparwr yn gwneud y canlynol:

16.1.1 darparu'r holl gymorth a chydweithrediad angenrheidiol fel y gofynnir yn rhesymol gan CITB i alluogi CITB i gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y FOIA a'r EIR;

16.1.2 trosglwyddo pob Cais am Wybodaeth mae'n ei dderbyn sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn i CITB cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac yn sicr cyn pen 2 Ddiwrnod Gwaith i'w dderbyn;

16.1.3 rhoi copi i CITB o'r holl Wybodaeth sy'n perthyn i CITB y gofynnwyd amdani yn y Cais am Wybodaeth sydd yn ei feddiant neu dan ei reolaeth ar y ffurf mae CITB yn gofyn amdani cyn pen 5 Diwrnod Gwaith (neu ba bynnag gyfnod arall a bennir yn rhesymol gan CITB) i'r cais am Wybodaeth o'r fath; a

16.1.4 pheidio ag ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth oni bai fod CITB wedi awdurdodi hynny'n ysgrifenedig.

16.2 Mae'r Darparwr yn cydnabod y gallai fod yn ofynnol i CITB o dan y FOIA a'r EIR ddatgelu Gwybodaeth (gan gynnwys Gwybodaeth Masnachol Sensitif) heb ymgynghori na chael caniatâd gan y Darparwr. Bydd CITB yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i'r Darparwr am Gais am Wybodaeth (yn unol â Chod Ymarfer adran 45 yr Ysgrifennydd Gwladol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Ran 1 o'r FOIA) i'r graddau y caniateir hynny ac i'r graddau mae'n rhesymol ymarferol iddo wneud hynny ond (ac eithrio unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn) bydd CITB yn gyfrifol am benderfynu gan ddefnyddio ei ddisgresiwn llwyr a oes unrhyw Wybodaeth Masnachol Sensitif a/neu unrhyw wybodaeth arall wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu yn unol â'r FOIA a/neu'r EIR.

**17. DIOGELU DATA**

17.1 Yn y cymal hwn, bydd gan "**rheolydd**", "**prosesydd**", "**gwrthrych y data**", "**data personol**", "**prosesu**" (a "**phroses**") **tor diogelwch data personol, prosesu a mesurau sefydliadol a thechnegol priodol** yr ystyr a nodir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

17.2 Yn y cymal hwn, **Data Personol a Rennir** yw'r data personol i'w rannu rhwng y partïon, y **Datgelwr Data** yw'r parti sy'n datgelu Data Personol a Rennir i'r parti arall at ddibenion y Cytundeb hwn (y "**Dibenion y Cytunir arnynt**").

17.3 Mae'r ddau barti'n cydnabod bod CITB a'r Darparwr yn rheolyddion mewn perthynas â'r Data Personol a Rennir sy'n destun y Cytundeb hwn ac nad ydynt yn rheolyddion ar y cyd (fel y'i diffinnir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data) ac eithrio pan wneir cytundeb penodol i'r perwyl hwnnw rhwng y partïon.

17.4 Mae cymal 17 yn nodi'r fframwaith ar gyfer rhannu data personol rhwng y partïon fel rheolyddion. Mae statws rheolydd CITB wedi'i nodi yn unol ag Atodiad A. Cyfrifoldeb y Darparwr yw prosesu unrhyw Ddata Personol a Rennir y tu allan i Atodiad A, ac fe fydd yn cydymffurfio â'i holl rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

17.5 Rhaid i bob parti gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a osodir ar reolydd o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data, a bydd unrhyw achos sylweddol o dorri'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data gan un parti, os na chaiff ei unioni o fewn 30 diwrnod i hysbysiad ysgrifenedig gan y parti arall, yn rhoi sail i'r parti arall derfynu'r cytundeb hwn ar unwaith.

17.6 Bydd y Partïon yn gwneud y canlynol:

17.6.1 sicrhau bod ganddynt yr holl gydsyniadau a hysbysiadau a seiliau cyfreithlon angenrheidiol yn eu lle er mwyn gallu trosglwyddo'r Data Personol a Rennir yn gyfreithlon at y Dibenion y Cytunir arnynt;

17.6.2 rhoi gwybodaeth lawn i unrhyw wrthrych y gall ei ddata personol gael ei brosesu o dan y cytundeb hwn ynglŷn â natur prosesu o'r fath. Mae hyn yn cynnwys rhoi rhybudd y gall data personol sy'n ymwneud â nhw gael ei gadw gan y Parti cymwys pan fydd y cytundeb hwn yn cael ei derfynu;

17.6.3 prosesu'r Data Personol a Rennir at y Dibenion y Cytunir arnynt yn unig;

17.6.4 peidio â datgelu na chaniatáu mynediad at y Data Personol a Rennir i unrhyw un ar wahân i'r derbynwyr a ganiateir;

17.6.5 sicrhau bod ganddo fesurau sefydliadol a thechnegol priodol ar waith, sydd wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan y parti arall, i warchod yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddileu neu ddifrodi data personol yn ddamweiniol;

17.6.6 peidio â throsglwyddo unrhyw ddata personol a dderbynnir gan y Datgelwr Data y tu allan i'r Deyrnas Unedig oni bai fod y trosglwyddwr yn sicrhau (i) bod y trosglwyddiad yn cael ei wneud i wlad a gymeradwywyd o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data

berthnasol fel gwlad sy'n darparu diogelwch digonol; neu (ii) bod mesurau diogelu priodol neu reolau corfforaethol rhwymol ar waith yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data berthnasol; neu (iii) bod y trosglwyddwr fel arall yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data berthnasol drwy ddarparu lefel ddigonol o warchodaeth i unrhyw ddata personol a drosglwyddir; neu (iv) bod un o'r rhanddirymiadau ar gyfer sefyllfaoedd penodol yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn berthnasol i'r trosglwyddiad.

17.7 Rhaid i bob parti helpu’r llall wrth gydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Yn benodol, bydd pob parti yn gwneud y canlynol:

17.7.1 ymgynghori â'r parti arall ynghylch unrhyw hysbysiadau a roddir i wrthrychau data mewn perthynas â'r Data Personol a Rennir;

17.7.2 rhoi gwybod yn brydlon i'r parti arall ar ôl cael unrhyw gais hawliau gwrthrych y data;

17.7.3 rhoi cymorth rhesymol i'r parti arall gydymffurfio ag unrhyw gais hawliau gwrthrych y data;

17.7.4 peidio â datgelu, rhyddhau, diwygio, dileu na rhwystro unrhyw Ddata Personol a Rennir mewn ymateb i gais hawliau gwrthrych y data heb ymgynghori â’r parti arall yn gyntaf lle bo modd;

17.7.5 helpu’r parti arall, ar gost y parti arall, i ymateb i unrhyw gais gan wrthrych y data ac i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â’i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, hysbysiadau tor diogelwch data personol, asesiadau o’r effaith ar ddiogelu data ac ymgynghoriadau â’r Comisiynydd Gwybodaeth neu reoleiddwyr eraill;

17.7.6 rhoi gwybod i’r parti arall heb oedi gormodol wrth ddod yn ymwybodol o achos o dorri’r Ddeddfwriaeth Diogelu Data;

17.7.7 ar gyfarwyddyd ysgrifenedig y Datgelwr Data, dileu neu ddychwelyd Data Personol a Rennir a chopïau ohono i’r Datgelwr Data pan ddaw’r cytundeb hwn i ben oni bai fod y Data Personol a Rennir yn cael ei ddal i gyflawni pwrpas statudol neu ei fod yn ofynnol yn gyfreithiol ar y parti i storio’r Data Personol a Rennir;

17.7.8 defnyddio technoleg gydnaws i brosesu Data Personol a Rennir i sicrhau nad oes diffyg cywirdeb yn deillio o drosglwyddiadau data personol;

17.7.9 cadw cofnodion a gwybodaeth sy’n gyflawn ac yn gywir i ddangos ei fod yn cydymffurfio â chymal 17 a chaniatáu archwiliadau gan y parti arall neu archwilydd dynodedig y parti arall; a

17.7.10 rhoi i'r parti arall fanylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data neu unrhyw berson dynodedig arall a gadarnhawyd yn ysgrifenedig fel y pwynt cyswllt a'r rheolwr cyfrifol ar gyfer pob mater sy'n deillio

o'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data, gan gynnwys hyfforddi staff perthnasol ar y cyd, y gweithdrefnau i'w dilyn os bydd achos o dorri diogelwch data, ac adolygu cydymffurfiad y partïon â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rheolaidd.

17.8 Bydd y Darparwr yn indemnio CITB, ei swyddogion, gweision neu asiantau yn llawn ac yn eu cadw wedi'u hindemnio yn erbyn pob hawliad, dyfarniad, cost, ffi broffesiynol ac alldaliad ac ati, wrth ddelio ag unrhyw hawliadau a wneir mewn perthynas â gwybodaeth sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data na fyddai hawliadau wedi codi amdanynt oni bai am weithred, anweithred neu esgeulustod y Darparwr neu ei Staff, ei asiantau, ei gontractwyr neu ei is-gontractwyr.

17.9 Bydd darpariaethau cymal hwn yn berthnasol yn ystod y Contract hwn ac am gyfnod amhenodol (i'r graddau a ganiateir yn ôl y gyfraith) ar ôl iddo ddod i ben neu ar ôl iddo gael ei derfynu.

## 18. <u>CYFRINACHEDD</u>

18.1 Yn amodol ar gymal 18.2, bydd y partïon yn cadw pob mater sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn yn gyfrinachol ac yn gwneud pob ymdrech resymol i atal eu cynrychiolwyr rhag datgelu unrhyw faterion sy'n ymwneud â hyn i unrhyw berson.

18.2 Ni fydd cymal 18.1 yn berthnasol i unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth:

18.2.1 sy'n ofynnol gan unrhyw gyfraith berthnasol, gan gynnwys unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol o dan y FOIA neu'r EIR yn unol â chymal 16 yn y Cytundeb hwn;

18.2.2 y mae disgwyliad rhesymol amdano gan bersonau a gyflogir gan barti wrth gyflawni rhwymedigaethau'r parti o dan y Cytundeb hwn;

18.2.3 lle gall parti ddangos bod gwybodaeth o'r fath eisoes ar gael yn gyffredinol ac yn gyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i dorri cymal 18.1;

18.2.4 gan CITB os nad yw unrhyw ddogfen y mae'n barti iddi yn cynnwys unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif, a bod y partïon i'r Cytundeb hwn wedi cytuno bod hynny'n wir;

18.2.5 sydd eisoes ym meddiant cyfreithlon y parti sy'n derbyn, cyn iddi gael ei datgelu gan y parti sy'n datgelu;

18.2.6 gan CITB i unrhyw adran, swyddfa neu asiantaeth arall o'r Llywodraeth;

18.2.7 gan CITB mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth sy'n deillio o ymchwiliad i gamymarfer, camweinyddu neu dwyll sydd wedi arwain at derfynu'r cytundeb hwn;

18.2.8 gan CITB mewn perthynas ag unrhyw ddatgeliad yn unol â chymal 27.2;

18.2.9 gan CITB mewn perthynas â dirymu cymhwyster, cyflawniad neu brawf, i roi gwybod i unrhyw sefydliad trydydd parti a fyddai'n dibynnu ar y cymhwyster, y cyflawniadau neu'r prawf hwnnw;

18.2.10 gan CITB mewn perthynas â'r Cytundeb hwn ac y mae'r

Darparwr wedi rhoi ei ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw i'w ddatgelu.

18.3 Ar y Dyddiad Terfynu, neu cyn hynny, bydd y Darparwr yn sicrhau bod yr holl ddogfennau a/neu gofnodion cyfrifiadurol sydd yn ei feddiant, dan ei ofal neu reolaeth sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol am gyflogeion, Dysgwyr a derbynwyr grantiau CITB sy'n cael eu talu neu sy'n daladwy mewn perthynas â Gwasanaethau, yn cael eu danfon i CITB neu, ar gais CITB, yn cael eu dinistrio'n ddiogel. Mae'r rhwymedigaeth hon yn ychwanegol, a heb ragfarn, at unrhyw rwymedigaeth a all fod gan y Darparwr o dan y Dogfennau Gofynion.

**19. EIDDO DEALLUSOL**

19.1 CITB ydy perchen y Deunyddiau, ac ef fydd yn berchen arnynt bob amser, ac ni fyddant yn:

19.1.1 cael eu hatgynhyrchu neu eu lledaenu ar wahân i'r hyn a ganiateir yn benodol yn y Cytundeb hwn; neu’n

19.1.2 cael eu defnyddio naill ai at ddibenion datblygu unrhyw ddeunyddiau pellach neu unrhyw ddibenion eraill o gwbl heb ymgynghori ymlaen llaw â CITB a chael caniatâd ysgrifenedig CITB.

19.2 Mae CITB yn rhoi trwydded anghyfyngedig ac anhrosglwyddadwy i'r Darparwr ddefnyddio'r hawliau Eiddo Deallusol yn y Deunyddiau yn ystod y Tymor ym Mhrydain Fawr (neu, os yw'r Gwasanaethau'n cael eu darparu y tu allan i Brydain Fawr, ar gyfer pobl sy'n cael eu cyflogi neu sy'n bwriadu cael eu cyflogi yn y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr) at ddibenion cyflawni Rhwymedigaethau'r Darparwr yn unol â'r Cytundeb hwn yn unig. Rhaid i’r Darparwr roi gwybod ar unwaith i CITB os yw'n dod yn ymwybodol o unrhyw ddefnydd heb awdurdod o’r cyfan neu unrhyw ran o Eiddo Deallusol CITB.

19.3 Ni fydd CITB yn atebol am unrhyw hawliad sy'n deillio o ddefnyddio'r Deunyddiau ar y cyd ag unrhyw ddeunyddiau nad ydynt wedi'u cyflenwi (na’u cymeradwyo) gan CITB nac unrhyw amrywiad i unrhyw eitem o'r Deunyddiau gan barti ar wahân i CITB neu ei asiant awdurdodedig.

19.4 Ni fydd CITB yn atebol am unrhyw hawliad sy'n deillio o ddefnyddio'r Deunyddiau (boed hynny ar y cyd ag unrhyw ddeunyddiau eraill ai peidio) y tu allan i Brydain Fawr.

19.5 Nid yw CITB yn gwarantu, yn datgan nac yn ymrwymo na fydd defnyddio'r Deunyddiau nac arfer unrhyw un o'r hawliau a roddir o dan y Cytundeb hwn yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol eraill na hawliau eraill unrhyw berson.

19.6 Bydd y Darparwr yn indemnio CITB yn erbyn yr holl hawliadau, gorchmynion, gweithredoedd, costau, treuliau (gan gynnwys costau cyfreithiol ac alldaliadau ar sail cyfreithiwr-cleient), colledion ac iawndal sydd wedi codi oherwydd bod tor-amod, neu dor-amod honedig (gan gynnwys amddiffyn tor-amod honedig o’r fath) wedi ei chyflawni yng nghyswllt hawliau Eiddo Deallusol gan y Darparwr, ac eithrio i’r graddau maent wedi’u hachosi gan weithredoedd neu esgeulustod CITB neu lle mae wedi cyfrannu atynt.

**20. TRWYDDED NOD MASNACH**

20.1 Mae CITB yn rhoi trwydded anghyfyngedig ac anhrosglwyddadwy i'r Darparwr ddefnyddio'r Nodau Masnach Rhestredig ym Mhrydain Fawr (neu, os yw'r Gwasanaethau'n cael eu darparu y tu allan i Brydain Fawr, ar gyfer pobl sy'n cael eu cyflogi neu sy'n bwriadu cael eu cyflogi yn y diwydiant adeiladu ym Mhrydain Fawr) mewn perthynas â darparu Gwasanaethau a defnyddio System CITB, yn amodol ac yn unol â'r Ffurflen/ni Cytundeb a darpariaethau'r Cytundeb hwn, ar gyfer Cyfnod y Cytundeb hwn ond nid ymhellach nac fel arall. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni cheir is-drwyddedu'r drwydded a roddir yng nghymal 20.1.

20.2 Mae CITB yn gwarantu mai ef yw perchennog y Nodau Masnach Rhestredig ac nad yw'n ymwybodol bod y Nodau Masnach Rhestredig na'r defnydd ohonynt yn torri, neu y byddant yn torri, hawliau unrhyw drydydd parti ar yr amod na fydd CITB yn atebol am unrhyw hawliad sy'n deillio o ddefnyddio'r Nod Masnach Rhestredig y tu allan i Brydain Fawr.

20.3 Bydd y Darparwr yn gwneud y canlynol:

20.3.1 cydymffurfio â'r Canllawiau Brandio bob amser;

20.3.2 ni fydd, heb ganiatâd ysgrifenedig CITB ymlaen llaw, yn defnyddio'r Nod Masnach Rhestredig oni bai ei fod yn cael ei ategu gan eiriau a bennir gan CITB o bryd i'w gilydd i gysylltu'r Nod Masnach Rhestredig â System CITB, y Cyfeiriadur Hyfforddiant Adeiladu, y Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu neu'r Gwasanaethau, fel y bo'n briodol;

20.3.3 ni fydd, heb ganiatâd ysgrifenedig CITB ymlaen llaw, yn defnyddio'r Nod Masnach Rhestredig i ddangos unrhyw gysylltiad cyffredinol â CITB neu ardystiad neu gymeradwyaeth gan CITB;

20.3.4 bydd, ar bob copi awdurdodedig o'r Deunyddiau, yn atgynhyrchu'n ffyddlon symbol, allwedd neu gymal yr hawlfraint neu, yn absenoldeb y rhain, yn gosod y Nod Masnach Rhestredig;

20.3.5 bydd yn tynnu sylw CITB ar unwaith at unrhyw ddefnydd amhriodol neu anghyfiawn o Nodau Masnach Rhestredig, arwyddluniau, dyluniadau, modelau neu hawliau eiddo diwydiannol, deallusol neu fasnachol tebyg eraill CITB sy'n dod i sylw'r Darparwr a bydd, wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn, yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu hawliau a buddiannau eiddo CITB ac yn cymryd pob cam sy'n ofynnol gan CITB i amddiffyn hawliau o'r fath.

## 21. <u>ATALIAD DROS DRO</u>

Gall CITB, ar unwaith drwy rybudd i'r Darparwr, neu heb rybudd mewn argyfwng, atal yr holl hawliau neu unrhyw rai o'r hawliau a roddir i'r Darparwr o dan y Cytundeb hwn.

21.1 Bydd hyn am gyfnod dros dro a chyn belled ag y bo'n rhesymol angenrheidiol er mwyn caniatáu i CITB ymchwilio i'r rheswm dros atal.

21.1.1 yn unol â chymal 21;

21.1.2 yn unol â'r Gwasanaethau a Dogfennau System CITB;

21.1.3 lle mae gan CITB sail resymol dros amau twyll, camymddwyn, camweinyddu neu gamymarfer ar ran y Darparwr, Personél y Darparwr neu unrhyw Ddysgwyr;

21.1.4 os yw'r Darparwr, ym marn CITB, yn peri pryder o ran ei allu i gynnal safon foddhaol o wasanaethau i Ddysgwyr;

21.1.5 lle mae CITB o'r farn bod y Darparwr wedi methu â chymryd unrhyw un o'r Camau Unioni yn brydlon;

21.1.6 lle nad yw'r Darparwr, er gwaethaf talu Ffioedd, mewn unrhyw gyfnod o 12 mis yn darparu unrhyw Wasanaethau nac yn cofnodi Cyflawniadau Dysgwyr ar System CITB;

21.1.7 pan fydd gan CITB hawl o dan unrhyw un o delerau eraill y Cytundeb hwn, ac eithrio terfynu o dan gymal 24, i atal y Cytundeb hwn, boed hynny gyda rhybudd neu heb rybudd;

21.1.8 os, o dan unrhyw Gytundeb Darparwr arall rhwng CITB a'r Darparwr, y bydd darparu Gwasanaethau o dan y cytundeb hwnnw yn cael ei atal neu ei derfynu am unrhyw reswm; neu

21.1.9 os, o dan Gytundeb Darparwr rhwng CITB ac unrhyw gwmni yn yr un grŵp o gwmnïau â'r Darparwr, y bydd darparu Gwasanaethau yn cael ei atal neu ei derfynu am unrhyw reswm.

21.2 Bydd atal, ar wahân i atal o dan gymal 21.1.7 os bydd darpariaethau amgen yn berthnasol, yn para am ba bynnag gyfnod sy'n rhesymol angenrheidiol i CITB ymchwilio i'r amgylchiadau sy'n arwain at atal a/neu i sicrhau bod camau unioni priodol yn cael eu cymryd gan y Darparwr a byddant yn cael eu codi ar ba bynnag adeg y mae CITB yn gwbl fodlon bod y camau sy'n deillio o ymchwiliad a gychwynnwyd mewn perthynas â chymal 21.1 wedi cael eu cymryd.

21.3 Os caiff y Cytundeb hwn ei atal gan CITB am reswm, ni fydd CITB yn colli nac yn ysgwyddo cost atal o'r fath ac mae'r Darparwr drwy hyn yn indemnio CITB yn erbyn unrhyw golledion neu gostau o'r fath y gallai CITB eu dioddef o ganlyniad i unrhyw atal dros dro o'r fath am reswm.

## 22. TYMOR

22.1 Bydd y Cytundeb yn dod i rym ar y Dyddiad Dechrau a bydd yn parhau oni bai a hyd y caiff ei derfynu gan y naill barti neu’r llall yn unol â darpariaethau’r Cytundeb hwn.

## 23. TERFYNU

23.1 Gall CITB derfynu'r Cytundeb hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar unwaith drwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i'r Darparwr yn yr amgylchiadau canlynol:

23.1.1 os yw'r Darparwr yn torri unrhyw rwymedigaeth sylweddol o dan y Cytundeb hwn, os oes modd unioni'r tor-amod yna dim ond os yw'r Darparwr wedi methu â gwneud hynny o fewn 28 diwrnod calendr i dderbyn hysbysiad gan CITB yn gofyn iddo wneud hynny y gall CITB derfynu'r Cytundeb hwn o dan gymal 23.1;

23.1.2 os yw’r Darparwr yn methu â thalu unrhyw swm sy'n ddyledus dan y Cytundeb hwn ar y dyddiad talu dyledus;

23.1.3 os yw’r Darparwr yn torri telerau'r Cytundeb hwn dro ar ôl tro

neu'n torri'r un telerau yn y Cytundeb hwn yn gyson neu'n fynych er na fydd unrhyw un achos o dorri'r Cytundeb ynddo'i hun yn torri rhwymedigaeth sylweddol;

23.1.4 unrhyw gamau gan y Darparwr, mewn perthynas â'r Cytundeb sydd, ym marn resymol Cynrychiolydd Awdurdodedig CITB, wedi achosi niwed sylweddol neu a allai achosi niwed sylweddol i enw da CITB;

23.1.5 mae gan CITB reswm dros gredu neu sail resymol dros amau twyll ar ran y Darparwr, Personél y Darparwr neu Ddysgwyr;

23.1.6 methiant i fodloni gofynion CITB i atal neu unioni camymarfer gan y Darparwr neu unrhyw un o Bersonél y Darparwr;

23.1.7 os oes Digwyddiad Ansolfedd;

23.1.8 os oes newid o ran rheolaeth y Darparwr o fewn ystyr adran 1124 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010;

23.1.9 mae'r Darparwr (ac yntau'n unigolyn) yn marw neu, oherwydd salwch neu analluogrwydd (boed yn feddyliol neu'n gorfforol) yn methu â rheoli ei faterion ei hun neu'n dod yn glaf dan unrhyw ddeddfwriaeth iechyd meddwl;

23.1.10 mae'r Darparwr yn gohirio neu'n rhoi'r gorau, neu'n bygwth gohirio neu roi'r gorau, i barhau i ddarparu Gwasanaethau yn unol â'r Ffurflen Gytundeb;

23.1.11 os bydd unrhyw gontract arall rhwng CITB a'r Darparwr ar gyfer darparu cynnyrch CITB yn cael ei derfynu am unrhyw reswm;

23.1.12 os yw'r contract rhwng y Darparwr a Sefydliad Cydnabyddedig, y cyfeirir ato yn y Ffurflen Gytundeb, yn cael ei atal neu ei derfynu am unrhyw reswm; neu

23.1.13 os bydd unrhyw gontract rhwng CITB ac unrhyw gwmni yn yr un grŵp o gwmnïau â'r Darparwr ar gyfer darparu cynnyrch CITB yn cael ei derfynu am unrhyw reswm.

23.2 Os caiff y Cytundeb hwn ei derfynu gan CITB heblaw yn unol â chymal 24 ni fydd terfyniad o'r fath yn arwain at golled neu gost i CITB ac mae'r Darparwr drwy hyn yn indemnio CITB yn erbyn unrhyw golledion neu gostau o'r fath y gallai CITB eu dioddef o ganlyniad i unrhyw derfyniad o'r fath am reswm.

**24. <u>TERFYNU MEWN RHYBUDD</u>**

Heb effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael iddo, gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Cytundeb hwn ar unrhyw adeg drwy roi 3 mis o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall. Ni fydd y parti sy'n arfer ei hawl o dan y cymal hwn yn derbyn unrhyw atebolrwydd dros y parti arall oherwydd hynny.

**25. <u>FORCE MAJEURE</u>**

Ni fydd y naill barti na'r llall yn torri'r Cytundeb hwn nac yn atebol am oedi wrth gyflawni, neu fethu â chyflawni, unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn os bydd oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i'w reolaeth resymol (Force Majeure), ac mewn amgylchiadau o'r fath bydd gan y parti yr effeithir arno hawl i gael estyniad rhesymol o'r amser ar gyfer cyflawni rhwymedigaethau o'r fath, ar yr amod bod

y cyfnod o oedi neu beidio â chyflawni yn parhau am 6 mis, gall y parti nad effeithir arno derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall.

**26. <u>ATAL LLYGREDIGAETH A GWRTHDARO</u>**

26.1 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod Personél y Darparwr, personau sy'n gysylltiedig ag ef neu bersonau eraill sy'n darparu gwasanaethau neu sy'n darparu nwyddau mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn:

26.1.1 cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau perthnasol sy'n ymwneud ag atal llwgrwobrwyo a thwyll gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010 ond heb fod yn gyfyngedig iddi (**Gofynion Perthnasol**);

26.1.2 peidio ag ymgysylltu ag unrhyw weithgarwch, ymarfer nac ymddygiad a fyddai'n drosedd o dan adrannau 1, 2 neu 6 Deddf Llwgrwobrwyo 2010 pe bai gweithgarwch, ymarfer neu ymddygiad o'r fath wedi digwydd yn y Deyrnas Unedig;

26.1.3 cydymffurfio â pholisi gwrth-dwyll, camymddwyn a chamweinyddu CITB (sydd ar gael ar-lein ac y gall CITB ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd) ac unrhyw bolisïau eraill o'r fath y gall CITB benderfynu eu bod yn angenrheidiol o bryd i'w gilydd (**Polisïau Perthnasol**);

26.1.4 meddu ar ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun a'u cynnal drwy gydol y Cytundeb hwn, gan gynnwys gweithdrefnau digonol o dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, i sicrhau cydymffurfiad â'r Gofynion Perthnasol, y Polisïau Perthnasol a chymal 26.1.2, a bydd yn eu gorfodi lle bo hynny'n briodol;

26.1.5 rhoi gwybod i CITB yn brydlon am unrhyw gais neu orchymyn am unrhyw arian gormodol neu fantais arall o unrhyw fath sydd wedi'i chael neu ei chynnig yng nghyswllt cyflawni'r Cytundeb hwn;

26.1.6 rhoi gwybod i CITB ar unwaith (yn ysgrifenedig) os bydd swyddog cyhoeddus tramor yn dod yn swyddog neu'n gyflogai i'r Darparwr neu'n caffael buddiant uniongyrchol neu anuniongyrchol yn y Cyflenwr a bod y Cyflenwr yn gwarantu nad oes ganddo swyddogion cyhoeddus tramor fel swyddogion na chyflogeion ar ddyddiad y Cytundeb hwn);

26.1.7 ardystio'n flynyddol i CITB yn ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan un o swyddogion y Darparwr, gydymffurfiaeth â chymal 26 gan y Darparwr a phob person sy'n gysylltiedig ag ef o dan gymal 26.2 a bydd y Darparwr yn darparu unrhyw dystiolaeth ategol o gydymffurfio y gall CITB ofyn yn rhesymol amdani.

26.2 Bydd y Darparwr yn sicrhau bod unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r Darparwr sy'n cyflawni gwasanaethau neu'n darparu nwyddau mewn perthynas â'r Cytundeb hwn yn gwneud hynny dim ond ar sail contract ysgrifenedig sy'n sicrhau ac yn gorfodi ar bersonau o'r fath delerau sy'n cyfateb i'r rhai a orfodir ar y Cyflenwr yng nghymal 26 (**Telerau Perthnasol**). Bydd y Darparwr yn gyfrifol am sicrhau bod personau o'r

fath yn dilyn ac yn cyflawni'r Telerau Perthnasol a bydd yn uniongyrchol atebol i CITB os bydd personau o’r fath yn torri unrhyw rai o’r Telerau Perthnasol.

26.3 Os bydd cymal 26 yn cael ei dorri, bernir ei fod yn doriad sylweddol sy'n rhoi hawl i CITB derfynu’r Cytundeb hwn.

26.4 At ddibenion cymal 26, bydd ystyr gweithdrefnau digonol a swyddog cyhoeddus tramor ac a yw person yn gysylltiedig â pherson arall yn cael ei bennu yn unol ag adran 7(2) o Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 (ac unrhyw ganllaw a gyhoeddir o dan adran 9 o’r Ddeddf honno), adrannau 6(5) a 6(6) o’r Ddeddf honno ac adran 8 o’r Ddeddf yn y drefn honno. At ddibenion cymal 26, mae person sy'n gysylltiedig â'r Darparwr yn cynnwys unrhyw is-gontractwr i'r Darparwr, ond nid yw wedi'i gyfyngu i hynny.

**27. <u>CANLYNIADAU TERFYNU</u>**

27.1 Pan ddaw'r Cyfnod i ben neu os terfynir y Cytundeb hwn yn gyfan gwbl neu'n rhannol am unrhyw reswm, bydd y Darparwr yn gwneud y canlynol:

27.1.1 rhoi’r gorau i gyflawni Rhwymedigaethau’r Darparwr ar unwaith;

27.1.2 dychwelyd yr holl Ddeunyddiau, unrhyw ddeunyddiau eraill sy'n cynnwys enw a/neu nod masnach a/neu logo CITB;

27.1.3 rhoi manylion i CITB am yr holl archebion yn y dyfodol gan Ddysgwyr, gan gynnwys manylion cyswllt pob Dysgwr (os yw CITB yn cyfarwyddo hynny) a gall CITB fynnu bod y manylion hyn yn cael eu darparu cyn terfynu (lle mae'r naill barti neu'r llall wedi cyflwyno rhybudd i derfynu);

27.1.4 rhoi'r gorau ar unwaith i arddangos neu ddefnyddio fel arall unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol neu systemau sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau a bydd yr holl hawliau a roddir gan y Cytundeb hwn yn dod i ben yn awtomatig.

27.2 Os bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu am gamymarfer, camweinyddu neu dwyll gan gynnwys o dan gymalau 23.1.4 i 23.1.6, mae CITB yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd (gan gynnwys rhoi gwybod i sefydliadau trydydd parti eraill) i ganlyniad unrhyw ymchwiliad gan CITB sy'n arwain at derfynu’r Darparwr. Dim ond ar ôl dilyn y weithdrefn apelio i'r pen neu ar ôl i'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i derfynu ddod i ben y byddai'r cam hwn yn cael ei gymryd.

27.3 Ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn (neu pan fydd cais rhesymol gan CITB cyn terfyniad o'r fath) bydd y Darparwr yn sicrhau bod yr holl ddata a deunydd arall sy'n eiddo i CITB (a phob cyfrwng o unrhyw natur sy'n cynnwys gwybodaeth a data sy'n eiddo i CITB neu sy'n ymwneud â Rhwymedigaethau'r Darparwr), yn cael eu darparu i CITB ar unwaith a bydd y Darparwr yn ardystio cydymffurfiad llawn â'r cymal hwn.

27.4 Caiff CITB, ar unrhyw adeg ac o bryd i'w gilydd o fewn 12 mis i’r Cytundeb hwn gael ei derfynu neu ddod i ben, arfer ei hawliau a nodir yng nghymal 9 (Monitro ac Archwilio).

27.5 Bydd terfynu, sut bynnag y bydd yn codi, heb ragfarn i hawliau presennol

y partïon adeg terfynu.

27.6 Bydd darpariaethau cymal 7 (Atal twyll), cymal 13 (Indemniadau), cymal 15 (Yswiriant), cymal 16 (Rhyddid Gwybodaeth), cymal 17 (Diogelu Data), cymal 18 (Cyfrinachedd), a chymal 27 (Canlyniadau terfynu) yn goroesi terfynu neu ddod â'r Cytundeb hwn i ben.

Darpariaethau cyffredinol

**28. ILDIO HAWL**

Os na fydd parti yn arfer unrhyw hawl neu rwymedi a ddarperir yn unol â'r Cytundeb hwn neu yn ôl y gyfraith neu os bydd yn oedi wrth wneud hynny, ni fydd hynny'n cyfrif fel ildio'r hawl neu'r rwymedi hwnnw neu unrhyw un arall. Ni fydd hynny ychwaith yn atal nac yn cyfyngu ar arfer yr hawl neu'r rwymedi neu unrhyw un arall yn y dyfodol. Ni fydd arfer hawl neu rwymedi o'r fath yn atal nac yn rhwystro arfer yr hawl neu'r rwymedi neu unrhyw rai eraill yn y dyfodol.

**29. TORADWYEDD**

29.1 Os yw unrhyw ddarpariaeth neu ran o ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu'n anorfodadwy, neu os bydd hynny'n digwydd, ystyrir ei fod wedi'i addasu i'r graddau lleiaf sydd ei angen i'w wneud yn ddilys, yn gyfreithlon ac yn orfodadwy. Os nad yw'n bosibl gwneud addasiad o'r fath, ystyrir bod y ddarpariaeth neu'r rhan o'r ddarpariaeth berthnasol wedi'i dileu. Ni fydd unrhyw achos o addasu neu ddileu darpariaeth neu ran o ddarpariaeth o dan y cymal hwn yn effeithio ar ddilysrwydd na gorfodadwyedd gweddill y Cytundeb hwn.

29.2 Os yw un parti yn hysbysu'r llall ynglŷn â'r posibilrwydd bod unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn annilys, yn anghyfreithlon neu nad oes modd ei orfodi, bydd y partïon yn negodi yn ddidwyll i ddiwygio'r ddarpariaeth honno fel ei bod, fel y'i diwygiwyd, yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy, ac, i'r graddau mwyaf posibl, yn cyflawni'r canlyniad masnachol a fwriadwyd yn y ddarpariaeth wreiddiol.

**30. PARTNERIAETH NEU ASIANTAETH**

Ni fwriedir nac ystyrir y bydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn sefydlu unrhyw bartneriaeth na menter ar y cyd rhwng unrhyw rai o'r partïon, yn cynnwys unrhyw barti fel asiant y parti arall nac yn awdurdodi unrhyw barti i wneud na llofnodi unrhyw ymrwymiadau ar gyfer unrhyw barti arall nac ar eu rhan.

**31. HAWLIAU TRYDYDD PARTI**

Ac eithrio fel y darperir yn benodol yn y Dogfennau Cwrs a System, ni fydd gan unrhyw un ac eithrio parti i'r Cytundeb hwn unrhyw hawl i orfodi unrhyw un o'i delerau.

**32. CYHOEDDUSRWYDD**

32.1 Ac eithrio fel y darperir yng nghymal 33, ni fydd y Darparwr yn gwneud, nac yn caniatáu i unrhyw berson wneud y canlynol:

32.1.1 unrhyw ddatganiadau i'r wasg neu roi cyhoeddusrwydd i'r Cytundeb hwn na'i gynnwys mewn unrhyw ffordd; neu

32.1.2 ddefnyddio enw neu logo CITB wrth hyrwyddo neu farchnata neu gyhoeddi gorchmynion.

**33. CYFEIRIADAU AT CITB**

33.1 Gall CITB ddatblygu a darparu o bryd i'w gilydd heb godi tâl ar y Darparwr, ddeunydd hysbysebu a hyrwyddo y gall y Darparwr ei ddefnyddio wrth farchnata Cwrs.

33.2 Wrth farchnata Cwrs, dim ond y deunyddiau hysbysebu hynny a ddarperir gan neu ar ran CITB neu a gymeradwyir ymlaen llaw gan CITB yn ysgrifenedig ac sy'n cydymffurfio â'r Canllawiau Brandio y caiff y Darparwr eu defnyddio neu eu cyhoeddi.

33.3 Mae CITB yn cadw'r hawl, a hynny unrhyw bryd, i dynnu ei gydsyniad yn ôl mewn perthynas ag unrhyw ddeunyddiau o'r fath ac mae'r Darparwr yn cytuno i roi'r gorau i ddefnyddio deunyddiau o'r fath ar unwaith.

33.4 Mae CITB yn cadw'r hawl i geisio erlyniad troseddol ar gyfer unrhyw Ddarparwr sy'n ceisio defnyddio enw, logo, deunydd neu Nodau Masnach CITB at ddibenion anghyfreithlon a, lle bo hynny'n briodol, bydd yn cymryd camau yn y llysoedd sifil yn erbyn Darparwr sy'n defnyddio enw, logo, deunydd neu Nodau Masnach CITB at ddibenion anawdurdodedig neu anghyfreithlon.

## 34. HYSBYSIADAU

34.1 Rhaid i unrhyw hysbysiad a roddir i barti o dan y Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef fod yn ysgrifenedig a rhaid iddo gael:

34.1.1 ei ddanfon â llaw neu drwy bost dosbarth cyntaf wedi'i ragdalu neu wasanaeth danfon diwrnod gwaith nesaf arall yn ei swyddfa gofrestredig (os yw'n gwmni) neu ei brif fan busnes (mewn unrhyw achos arall); neu

34.1.2 ei anfon dros e-bost at yr unigolyn y mae'r Darparwr wedi'i nodi fel ei Gynrychiolydd Awdurdodedig neu ei brif gyswllt.

34.2 Ystyrir bod pob hysbysiad wedi dod i law:

34.2.1 os yw'n cael ei ddanfon â llaw, ar ôl cael llofnod ei fod wedi'i ddanfon i'r cyfeiriad priodol neu'r adeg mae'r rhybudd yn cael ei adael yn y cyfeiriad priodol;

34.2.2 os yw wedi'i anfon drwy bost dosbarth cyntaf wedi'i ragdalu neu wasanaeth danfon diwrnod gwaith nesaf arall, am 9.00 a.m. ar yr ail Ddiwrnod Gwaith ar ôl postio neu'r amser a nodir gan y gwasanaeth danfon; neu

34.2.3 os caiff ei hanfon dros e-bost, am 9.00 a.m. ar y Diwrnod Gwaith nesaf ar ôl ei throsglwyddo.

34.3 Nid yw'r cymal hwn yn berthnasol i gyflwyno unrhyw achos neu ddogfennau eraill mewn unrhyw achos cyfreithiol neu, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw gyflafareddu neu unrhyw ffordd arall o ddatrys anghydfod.

34.4 Rhaid i unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan y Cytundeb hwn gael ei farcio er sylw Cynrychiolydd Awdurdodedig y parti y cyflwynir yr hysbysiad iddo.

## 35. SICRWYDD PELLACH

Bydd pob parti yn gwneud popeth ac yn gweithredu'r holl ddogfennau pellach sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu'r Cytundeb hwn yn llawn.

## 36. GOSOD YN ERBYN

Pa bryd bynnag o dan y Cytundeb hwn, y bydd swm o arian yn daladwy gan y Darparwr neu y gellir ei adennill ganddo, gellir tynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sy'n ddyledus, neu a all wedyn ddod yn ddyledus, i'r Darparwr o dan y contract hwn neu unrhyw gontract arall gydag CITB. Os bydd CITB yn arfer ei hawliau o dan gymal 36, bydd hynny heb ragfarnu ar unrhyw hawliau neu rwymedïau eraill sydd ar gael iddo o dan y Cytundeb hwn neu fel arall.

**37.** **CYFRAITH LYWODRAETHOL**

Bydd y Cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu ei destun neu ei ffurfiad (gan gynnwys unrhyw anghydfod neu hawliad nad yw'n gytundebol) yn cael eu llywodraethu a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr.

**38.** **AWDURDODAETH**

Mae pob parti'n cytuno'n ddi-droi'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio o'r Cytundeb hwn neu mewn cysylltiad ag ef neu ei destun neu ei ffurfiad (gan gynnwys unrhyw anghydfod neu hawliad nad yw'n gytundebol).

**Atodiad A**

**Prosesu, Data Personol a Gwrthrychau'r Data**

| Disgrifiad | Manylion |
|---|---|
| Cynnwys y prosesu: | Data personol sy'n ymwneud â dysgwyr, cynrychiolwyr a phrentisiaid, hyfforddiant i gefnogi'r diwydiant adeiladu a darparwyr hyfforddiant yn unol â rhwymedigaethau CITB fel Bwrdd Hyfforddi Diwydiannol o dan Ddeddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982. |
| Diben y prosesu: | Galluogi CITB i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau fel Bwrdd Hyfforddiant Diwydiannol yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982.<br><br>Mae prosesu yn cynnwys prosesu Data Personol at ddibenion:<br><br>• annog a darparu hyfforddiant digonol i bobl sy'n cael eu cyflogi neu y bwriedir eu cyflogi yn y diwydiant adeiladu. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwefannau a gwasanaethau sy'n rhoi mynediad at gyrsiau hyfforddi.<br>• diogelu iechyd a diogelwch gwrthrych y data neu berson arall mewn cysylltiad â chyflogaeth yn y diwydiant adeiladu.<br>• cyllid ar gyfer cyrsiau, fel prosesu grant CITB |
| Hyd y prosesu: | Bydd y gwaith prosesu'n digwydd drwy gydol y contract, neu cyhyd ag y bo angen er mwyn i CITB gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol neu gontractiol neu gydymffurfio â'i rwymedigaethau fel Bwrdd Hyfforddi Diwydiannol yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982. |
| Natur y prosesu: | Bydd y gwaith prosesu'n cynnwys storio, adfer, addasu, trosglwyddo ac arddangos gwybodaeth i bartïon allanol sydd wedi'u hawdurdodi i gael mynediad at yr wybodaeth.<br><br>Bydd y gwaith prosesu hefyd yn cynnwys gweinyddu a diogelu'r wybodaeth ar ffurf gwneud copïau wrth gefn ac adfer. |

| | |
|---|---|
| Math o ddata personol: | Bydd data personol yn cynnwys y mathau canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):<br><br>• Enw a chyfeiriad<br>• Rhif Ffôn<br>• Cyfeiriad e-bost<br>• Dyddiad geni<br>• Rhif Yswiriant Gwladol<br>• Manylion Cyfrif Banc<br>• Llun ID<br>• Gwybodaeth am y cyflogwr<br>• Gwybodaeth am y cyflogai<br>• Rhif Adnabod CITB (Phoenix/ID Cerdyn)<br>• Gwybodaeth am y cymhwyster<br><br>Gall data categori arbennig gynnwys y mathau canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):<br><br>• iechyd,<br>• data biometrig |
| Categorïau gwrthrychau data: | Bydd categorïau'r gwrthrychau data yn cynnwys:<br><br>• Staff CITB a'u proseswyr data<br>• Staff yr aelod o’r Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant a’u proseswyr data<br>• Cyflogeion/Dysgwyr<br>• Cyflogwyr a'u proseswyr data |
| Y cynllun ar gyfer dychwelyd a dinistrio’r data ar ôl i’r cyfnod prosesu ddod i ben ONI BAI ei fod yn ofyniad o dan gyfraith aelod-wladwriaethau neu undebau i gadw’r math yna o ddata: | Lle bo angen, mae gwybodaeth yn cael ei dyblygu i gyfleusterau prosesu data CITB i'w chadw a'i dinistrio yn unol â'i amserlen cadw data.<br><br>Cyfrifoldeb aelod y Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant yw dinistrio data yn unol â'i amserlen cadw data. |